**Eitem Agenda Rhif 3a**

## CYNHADLEDD YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod y Gynhadledd Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Tŷ Nant, Ffordd Nant Hall, Prestatyn dydd Llun, Chwefror 4 2008 am 10.00 a.m.

### PRESENNOL

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr G.C. Evans, G.A. Jones, D. Owens a G.J. Pickering

**Yn cynrychioli Cydbwyllgor Trafod Telerau Athrawon Sir Ddinbych**

I. Barros-Curtis, M. Bradshaw, L. Linaker ac M.B. Lloyd

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

H. Ellis, S. Harris, M. Hatch, Rev. B.H. Jones (Cadeirydd), M. Ludenbach ac A. Tucker

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn (dirprwy i'r Parch. Athro. L.J. Francis)

**Arsyllwr:** Clive Halliday, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych

### HEFYD YN BRESENNOL

Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol (G. Craigen) a Swyddog Gweinyddu (K.E. Jones)

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN

T. Bryer, B. Wyn Evans ynghyd â'r Cynghorwyr H.H. Evans, N. Hugh-Jones ac M.M. Jones

Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Dysgu Gydol Oes a Phennaeth Dros Dro Gwella Ysgolion.

**MYFYRDOD TAWEL**

Cychwynnodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrdod tawel.

**CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r swyddogion i'r cyfarfod. Estynnwyd croeso cynnes hefyd i'r Capten Angela Tucker a oedd yn aelod newydd o CYSAG ac yn mynychu ei chyf-

arfod cyntaf, a Mr Clive Halliday, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych a oedd yn ar-syllu'r cyfarfod heddiw.

## 1 MATERION BRYS

Nid oedd yna unrhyw faterion brys i'w hystyried gan y pwyllgor.

## 2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 12 2007 (a ddosbarthwyd eisoes) fel y'i derbyniwyd gan y Cyngor Sir ar Ionawr 22 2008.

**Materion yn Codi -**

Tudalen 2 - Eitem Rhif 4 - Cofnodion: Materion yn Codi: Mater i'w drafod gyda'r Gweinidog Addysg - Cyflwynodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol adroddiad (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) ar ganlyniadau'r ymweliad â'r Gweinidog a gynhaliwyd ar Dachwedd 26 2007. Crynhodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol yr adroddiad ar gyfer yr aelodau gan amlinellu'r pedwar cwestiwn a roddwyd i'r Gweinidog a'i hymateb iddynt. Roedd yn falch o adrodd ei fod yn gyfarfod positif iawn ac yr oedd agwedd ddymunol y Gweinidog a'i pharodrwydd i glywed eu barn wedi bod yn galondid i'r ddirprwyaeth. Roedd y Gweinidog wedi bod yn gefnogol iawn tuag at Addysg Grefyddol mewn nifer o faterion, yn enwedig o ran yr angen i godi proffil Addysg Grefyddol dros 16. Roedd y ddirprwyaeth wedi awgrymu cynhadledd profi uchel i godi ymwybyddiaeth ac fe wirfoddolodd y Gweinidog i draddodi'r brif araith yn y digwyddiad hwnnw. Ar ddiwedd y cyfarfod dywedodd y Gweinidog ei bod yn gwerthfawrogi cyfraniad CYSAG Cymru a swyddogaeth CYSAG a'u gwerth mawr i Awdurdodau Addysg Lleol. Roedd aelodau'n falch o nodi'r cyfarfod positif ac yn edrych ymlaen at ddatblygiadau'n deillio o hynny yn y dyfodol. Diolchodd y Cadeirydd i'r Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol a'r ddirprwyaeth am eu gwaith caled a'u cefnogaeth.

Tudalen 2 - Eitem Rhif 2 Cofnodion: Materion yn Codi: Datblygiad Ysbrydol yn y Cwricwlwm - Roedd copïau o fersiwn derfynol y ddogfen oedd yn cynnig cyngor ar Ddatblygiad Ysbrydol ar draws y cwricwlwm ar gael i'r aelodau eu casglu yn y cyfarfod. Ailadroddodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol y byddai'r ddogfen yn cael ei hanfon at bob athro yn yr awdurdod gyda hyn a theimlid y byddai ysgolion ac athrawon yn gwerthfawrogi'r mewnbwn hwnnw. Roedd yr aelodau'n falch y byddai pob athro'n cael y cyfle i elwa oddi wrth yr arweiniad hwnnw. Pwysleisiodd y Cynghorydd G.J. Pickering bwysigrwydd adborth ar y ddogfen gan athrawon a fyddai'n ddefnyddiol i CYSAG. Mewn ymateb i ymholiad am ddosbarthiad y ddogfen cadarnhaodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol y byddai'n sicrhau holl athrawon, yn cynnwys y rheiny yn Ysgol y Santes Brigid nad oeddynt ar gyflogres y Cyngor, yn derbyn copi.

Tudalen 5 – Eitem Rhif 8: CYSAG Cymru – Yn unol â chais CYSAG yn y cyfarfod diwethaf, roedd copïau o'r llawlyfr a roddwyd i aelodau newydd CYSAG ar gael yn y cyfarfod i'w gasglu gan yr holl aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar Dachwedd 12 2007.*

## 3. MAES LLAFUR CYTÛN WEDI'I ADOLYGU

Fe atgoffaodd Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau fod gan CYSAG ddyletswydd statudol i gynghori'r Awdurdod Addysg Lleol ar fabwysiad ac adolygiad ei Faes Llafur Cytûn. Felly ceisiai gadarnhad CYSAG o'r penderfyniad a'r argymhelliad i'r Awdurdod Addysg Lleol a'r Gynhadledd Maes Llafur Cytûn i fabwysiadu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol fel y Maes Llafur Cytûn i Sir Ddinbych, gyda diwygiadau priodol, ac i ddarparu canllawiau atodol i ysgolion. Cynhelid cyfarfod o'r Gynhadledd Maes Llafur Cytûn yn syth ar ôl cyfarfod CYSAG heddiw.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) cadarnhau'r penderfyniad a'r argymhelliad i'r Awdurdod Addysg Lleol a'r Gynhadledd Maes Llafur Cytûn i fabwysiadu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol yn Faes Llafur Cytûn i Sir Ddinbych, gyda diwygiadau priodol, ac i ddarparu canllawiau atodol i ysgolion, a*

*(b) gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol brintio a dosbarthu copïau o'r Maes Llafur Cytûn a'r Canllawiau Atodol i ysgolion.*

## 4. CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2007

Cyflwynodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol dablau (a ddosbarthwyd eisoes) gyda manylion canlyniadau arholiadau ysgolion yn arholiadau TAG a TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol yn 2007 o'u cymharu â 2006 ar gyfer adolygiad aelodau.

Yna fe arweiniodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau drwy'r canlyniadau'n fanwl ac adroddodd yn llafar ar y cymariaethau rhwng canlyniadau arholiadau 2007 a 2006. Cyfeiriodd yn benodol at y pwyntiau canlynol:-

- Holl Ganlyniadau TGAU – Astudiaethau Crefyddol 2007 – roedd yna 34 yn llai o ymgeiswyr na'r flwyddyn flaenorol, yn gyffredinol cafwyd gwelliant ar y flwyddyn flaenorol gyda 70.4% yn cyflawni A* - C ond roedd y ffigwr hwn 0.7% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol

- Canlyniadau TGAU Bechgyn – Astudiaethau Crefyddol 2007 – roedd yna 17 yn fwy o ymgeiswyr na'r flwyddyn flaenorol gyda gwelliant o 1.4% gyda 66.7% yn cyflawni A* - C a oedd yn 2.1% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol; dyma'r unig ffigwr yng nghanlyniadau eleni a oedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

- Canlyniadau TGAU Merched – Astudiaethau Crefyddol 2007 – roedd yna 51 yn llai o ymgeiswyr gyda 73.5% yn cyflawni A* - C a oedd yn welliant ar y flwyddyn flaenorol sef 1.5% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o'i gymharu â 3.7% yn is y flwyddyn flaenorol

- Addysg Grefyddol Pawb (Cwrs Byr) – yn gyffredinol roedd yna 22 yn fwy o ymgeiswyr; cyflawnodd 43% A* - C a oedd yn gwymp o 3.2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a oedd yn 15.8% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol gan ddangos gostyngiad ar berfformiad y flwyddyn flaenorol.

- Addysg Grefyddol Bechgyn (Cwrs Byr) – roedd yna 13 yn fwy o ymgeiswyr na'r llynedd gyda 31.1% yn cyflawni A* - C sef yr un canlyniad â'r flwyddyn flaenorol a oedd yn 20.1% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol

- Addysg Grefyddol Merched (Cwrs Byr) – roedd yna 9 yn fwy o ymgeiswyr gyda 51.1% yn cyflawni A* - C a oedd yn 4.9% yn is na'r flwyddyn flaenorol ac yn 14.5% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol a oedd yn ostyngiad o 11.6% ar y flwyddyn flaenorol

- TAG Lefel Uwch Pawb – Astudiaethau Crefyddol 2007 – roedd yna 16 yn fwy o ymgeiswyr gyda 69% yn cyflawni A – C which a oedd yn gynnydd o 14.2% ar y flwyddyn flaenorol ond yn dal i fod yn 6.9% yn is na lefel y cyfartaledd cenedlaethol er yn welliant ar y 10.7 % yn is na'r lefel cenedlaethol y flwyddyn flaenorol

- TAG Lefel Uwch Bechgyn – Astudiaethau Crefyddol 2007 – roedd yna 5 yn fwy o ymgeiswyr gyda 60% yn cyflawni A - C a oedd yr un fath â'r flwyddyn flaenorol ond yn dal yn 11% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol a oedd yn waeth na'r 9.1% yn is na'r lefel cenedlaethol y flwyddyn cynt

- TAG Lefel Uwch Merched – Astudiaethau Crefyddol 2007 – roedd yna 11 yn fwy o ymgeiswyr gyda 72.1% yn cyflawni A – C a oedd yn gynnydd o 19% ar y flwyddyn flaenorol ond yn 5.2% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ond yn welliant ar y flwyddyn flaenorol a oedd yn 13.5% yn is na lefel y cyfartaledd cenedlaethol.

Cyfeiriodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol at y canlyniadau cymysg. Er bod pump o'r tablau arholiad wedi dangos gwelliant dim ond un o'r rheiny oedd yn uwch na lefel y cyfartaledd cenedlaethol. Dangosai dau dabl arholiad ostyngiad ar berfformiad blaenorol ac roedd dau'n aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd yna unrhyw ganlyniadau ar gyfer Lefel Mynediad/CoEA ar gyfer 2007. Atgoffaodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau eu bod wedi archwilio'r tueddiadau'r flwyddyn cynt ac fe anfonwyd llythyrau at yr ysgolion hynny a oedd yn dangos gostyngiad mewn perfformiad dros amser. Hysbysodd mai Uwchysgol Y Rhyl oedd yr unig ysgol eleni a oedd yn dangos gostyngiad mewn perfformiad dros dair blynedd yn olynol gan hysbysu fod canlyniadau TGAU am y cwrs byr mewn Addysg Grefyddol yn 23.8% yn 2007; 46.8% yn 2006, a 60.6% yn 2005. Felly byddai'r Archwiliwr/Cynghorydd yn ymweld â'r ysgol y tymor canlynol i ymdrin â'r perfformiad gwael. Cyn 2005 roedd canlyniadau yn Uwchysgol y Rhyl wedi bod yn dda ac roedd angen archwilio lefelau cyflawniadau. Cytunodd yr Archwiliwr/Cynghorydd i adrodd yn ôl i'r aelodau ar hynny.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nododd y Cynghorydd G.J. Pickering fod ar y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd angen cymorth a phwysleisiodd yr angen i weithredu yn y cyfnod cynnar er mwyn i lefelau perfformiad gynyddu yng nghanlyniadau'r arholiadau nesaf. Adroddodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol ar waith a wneir mewn ysgolion unigol gyda'r Tîm Gwella Ysgolion a gobeithid y byddai strategaethau a drafodid ar lefel yr holl ysgolion yn cael effaith bositif. Dywedodd Mrs. M.B. Lloyd fod llawer yn dibynnu ar garfan y disgyblion a oedd yn dilyn y cyrsiau ac a oedd yn newid bob blwyddyn. Teimlai y dylid diolch i'r ysgolion am y gwaith da a wnaethpwyd ac y dylid eu hannog i wella. Cytunodd y Cadeirydd fod angen i CYSAG annog ysgolion drwy gynnig gwasanaethau'r Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol i gyflawni gwelliannau. Mynegodd y Cynghorydd D. Owens ei siomedigaeth ynglŷn â'r canlyniadau gwael a theimlai y dylid rhoi mwy o bwyslais ar yr agwedd hon o'r cwricwlwm drwy Agenda Moderneiddio Addysg a phwysleisiodd bwysigrwydd safon dda o Addysg Grefyddol mewn ysgolion. Hysbysodd Mrs. M.B. Lloyd fod yna fwy o bwyslais wedi ei roi yn awr ar Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm a byddai'r Maes Llafur Cytûn newydd yn darparu mwy o bwyslais ac arweiniad ar y mater hwn.

Siaradodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol yn gyffredinol am yr anawsterau a'r benbleth a oedd yn wynebu ysgolion ac adroddodd ar y gwaith cyfredol gydag ysgolion, yn cynnwys gwaith sesiwn gyda'r ysgolion hynny lle'r oedd canlyniadau'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, i sicrhau gwelliannau. Cyfeiriodd hefyd at gynnig i gynnal Cwrs Strategaeth Arholiadau ar gyfer disgyblion ac roedd trafodaethau gyda CBAC i'r perwyl hwnnw i dargedu perfformiad arholiadau gyda disgyblion penodol. Cytunwyd y dylid ceisio adborth ar ddichonolrwydd y fath gwrs gan ysgolion. Mewn ymateb i awgrym gan y Cynghorydd D. Owens, cytunodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol i gyfarfod gyda'r Pennaeth newydd Gwella Ysgolion pan fyddai'n ymgymryd â'i swydd er mwyn delio â meysydd perfformiad gwael mewn Addysg Grefyddol ac i sicrhau gwelliannau.

Awgrymodd Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol y dylid anfon llythyrau i longyfarch yr ysgolion hynny lle'r oedd canlyniadau wedi gwella ar y flwyddyn flaenorol ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Felly hefyd dylid anfon llythyrau at yr ysgolion hynny oedd wedi tanberfformio yn gofyn pa gamau yr oedd yr ysgolion hynny'n eu cymryd ac yn cynnig cymorth i gyflawni gwelliannau.

***PENDERFYNWYD*** *:-*

*(a)* *derbyn y data a'r crynodeb ystadegol;*

*(b)* *bod yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol yn trefnu cyfarfod y tymor canlynol gyda'r ysgolion hynny lle'r oedd canlyniadau'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol;*

*(c)* *ceisio adborth gan ysgolion ynglŷn â dichonolrwydd y cynnig am Ddiwrnod Strategaeth Arholiadau i Ddisgyblion;*

*(ch)* *anfon llythyrau o longyfarchion i'r ysgolion hynny lle'r oedd canlyniadau wedi gwella ar y flwyddyn flaenorol ac yr oeddynt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol;*

(d) *anfon llythyrau at yr ysgolion hynny lle'r oedd canlyniadau'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol er mwyn gofyn pa gamau oedd ar y gweill ac i gynnig gwasanaeth yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol i helpu i gyflawni gwelliannau, a*

(dd) *gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol ddosbarthu'r llythyrau uchod.*

## 5. DADANSODDIAD O ADRODDIADAU ARCHWILIO AR YSGOLION

Cyflwynodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn dadansoddi canlyniadau'r archwiliadau diweddar o ddwy ysgol rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2007 o ran darpariaeth Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol (YMCD), ac Addysg Grefyddol lle'r oedd yn rhan o'r archwiliad. Cynhaliwyd yr archwiliadau yn Ysgol Llantysilio ac Ysgol Cefn Meiriadog ac roedd hanes byr o bob ysgol wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad.

Darparodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau â chrynodeb byr o'r casgliadau oedd yn berthynol i bob ysgol, gan esbonio ac egluro materion penodol mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau. Roedd yn braf nodi'r 31 o sylwadau positif ar gyfer YMCD rhwng y ddwy ysgol gyda dim ond 5 o sylwadau negyddol. Byddai'r ysgol yn delio â'r pwyntiau negyddol hynny. O ran y sylw nad oedd gweithgareddau allgyrsiol yn cael eu cynnig yn gyfredol i ddisgyblion ar safle'r ysgol (Ysgol Llantysilio) hysbyswyd yr aelodau fod pellter teithio'r disgyblion yn dylanwadu ar hyn. Ychwanegodd Mrs. M.B. Lloyd, ers i'r ysgol gael ei chlystyru, efallai y bydd yna fwy o gyfle i ymdrin â'r pwynt yma. Cyfeiriodd y Cynghorydd D. Owens at y sylw negyddol ynglŷn â chynllunio manwl annigonol ar gyfer hyrwyddo sgiliau dwyieithog actif y disgyblion yn Ysgol Cefn Meiriadog gan hysbysu fod yr ysgol yn delio â'r mater yn weithredol. O ran Addysg Grefyddol roedd y ddwy ysgol wedi derbyn 24 o sylwadau positif rhyngddynt ac ni nodwyd unrhyw ddiffygion o fewn yr ysgolion. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau negyddol mewn unrhyw un o'r Cyfnodau allweddol ac fe gawsant eu graddio'n Radd 2 (nodweddion da a dim diffygion pwysig). Hysbyswyd Aelodau y bydd yna, efallai, ddisgrifiadau gradd newydd yn ystod y cylch newydd o archwiliadau.

Llongyfarchodd yr Aelodau'r ddwy ysgol ar eu hadroddiadau archwilio positif ac roedd yn galondid na nodwyd unrhyw ddiffygion.

***PENDERFYNWYD****:-*

(a) *derbyn yr adroddiad a'i nodi;*

(b) *bod yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol i ysgrifennu at yr ysgolion a archwiliwyd yn eu llongyfarch ar y nodweddion da ac yn cynnig gwasanaeth-au'r Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol neu swyddogion eraill yr Aw-durdod Addysg Lleol i ddelio ag unrhyw ddiffygion neu faterion allweddol, a*

(c) *gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol ddosbarthu'r llythyrau uchod.*

## 6. CYMDEITHAS CYSAG CYMRU

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru a gynhaliwyd yng Nglyn Ebwy ar Ragfyr 4 2007 (a ddosbarthwyd eisoes).

Adroddodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol ar gyflwyniad gan Tudor Thomas 'Ymestyn a Herio – Cysyniadau Allweddol y Lefel A Astudiaethau Crefyddol Newydd i'w Cyflwyno yn 2008' yn amlinellu'r trefniadau newydd ar gyfer manyleb lefel A. Byddai copi o'r sleidiau yn y cyflwyniad wedi eu hatodi at fersiwn derfynol y cofnodion. Roedd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol wedi traddodi'r ail gyflwyniad i Gymdeithas CYSAG Cymru ar Addysg Grefyddol Dros 16 ac amlygodd y cynnig am Gynhadledd Addysg Grefyddol Dros 16 gan adeiladu ar waith blaenorol i gefnogi ffordd arloesol y gellid ymdrin ag a dargludo Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm gyda manteision a gwerthoedd. Roedd yn cynnig yn cynnwys Cynhadledd ym Medi/Hydref 2008 yng Ngholeg Dewi Sant yng Nghaerdydd (drwy wahoddiad y Corff Llywodraethol) ac ystyriaeth o gysylltiad cynhadledd fideo yng Ngogledd Cymru. Roedd y Gynhadledd i gynnwys hefyd prif araith gan y Gweinidog; adroddiad gan bobl ifanc drwy 'Funky Dragon'; cyflwyniad gan Heddlu dyfed Powys ar eu rhaglen i Swyddogion yr Heddlu ar faterion crefyddol; darlithydd o Brifysgol Caerdydd i siarad am werth hanfodol Astudiaethau Crefyddol i bobl sy'n ystyried meddygaeth fel gyrfa, a lansio Pecyn Arweiniad yn y Gynhadledd i gefnogi Addysg Grefyddol. Roedd Cymdeithas CYSAG Cymru wedi cytuno i ddarparu peth ariannu ar gyfer y Gynhadledd ac yr oedd dulliau ariannu eraill yn cael eu ceisio. Gobeithid y byddai CYSAG yn annog ysgolion i anfon cynrychiolwyr i'r Gynhadledd

Hysbysodd Mrs. M.B. Lloyd hefyd am drafodaethau yn Awdurdod Gweithredol Cymdeithas CYSAG Cymru ynglŷn â darpariaeth Addysg Grefyddol Dros 16 mewn Colegau Addysg Bellach nad oeddynt yn dod dan gylch gwaith y gyfraith o ran darparu Addysg Grefyddol ac amlygodd yr angen am eu hymglymiad. Cadarnhaodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol y cytunwyd i wahodd Colegau Addysg Bellach i'r Gynhadledd.

Roedd y Cynghorydd G.J. Pickering hefyd wedi mynychu cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru a diolchodd i'r Cynghorydd M.M. Jones am ei help y diwrnod hwnnw. Roedd y cyfarfod wedi bod yn brofiad pleserus a diddorol. Roedd y Cynghorydd Pickering wedi nodi'r diffyg cynrychiolaeth o Ogledd Cymru ac roedd yn falch fod ei awgrym ynglŷn â sefydlu cysylltiad cynhadledd fideo â'r Gynhadledd Dros 16 arfaethedig yng Nghaerdydd wedi ei dderbyn. Cyfeiriwyd hefyd at yr arddangosiadau amrywiol a diddorol yn y cyntedd yr anogwyd aelodau i'w gweld ac roedd y Cynghorydd Pickering wedi nodi fod y defnyddiau wedi eu darparu gan fwyaf o'r ysgolion cynradd. Gobeithiai y byddai unrhyw drefnwyr yng Ngogledd Cymru'n ystyried mwy o fewnbwn o sector yr ysgolion uwchradd. I gloi pwysleisiodd y Cynghorydd Pickering bwysigrwydd y Gynhadledd Dros 16 i ddarpariaeth Addysg Grefyddol Dros 16 ac argymhellodd yn gryf bod ysgolion uwchradd a Cholegau Addysg Bellach yn mynychu'r digwyddiad.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru a gynhaliwyd ar Ragfyr 4 2007 ynghyd â'r adroddiad llafar gan aelodau a oedd yn bresennol.*

Cyn cloi’r cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i’r aelodau am eu presenoldeb a’u cyfraniadau i’r drafodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 a.m.

**Eitem Agenda Rhif 3b**

## CYNHADLEDD MAES LLAFUR CYTÛN SIR DDINBYCH

Cofnodion cyfarfod Cynhadledd Maes Llafur Cytûn Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Tŷ Nant, Ffordd Nant Hall, Prestatyn ar ddydd Llun, Chwefror 4 2008 am 11.15 a.m.

### PRESENNOL

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr G.C. Evans, G.A. Jones, D. Owens a G.J. Pickering

**Yn cynrychioli Cydbwyllgor Trafod Telerau Athrawon Sir Ddinbych**

I. Barros-Curtis, M. Bradshaw, L. Linaker a M.B. Lloyd

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

H. Ellis, S. Harris, M. Hatch, Rev. B.H. Jones (Cadeirydd), M. Ludenbach and A. Tucker

**Arsyllwyr:** T. Ap Sion (dirprwy i'r Parch. Athro. L.J. Francis) a Clive Halliday, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych

### HEFYD YN BRESENNOL

Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol (G. Craigen) a Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN

T. Bryer, B. Wyn Evans ynghyd â'r Cynghorwyr H.H. Evans, N. Hugh-Jones ac M.M. Jones

Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Dysgu Gydol Oes a Phennaeth Dros Dro Gwella Ysgolion

### 1. FFRAMWAITH ENGHREIFFTIOL CENEDLAETHOL AR GYFER ADDYSG GREFYDDOL

Ceisiodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol gymeradwyaeth aelodau i fabwysiadu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i rai rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru (a ddosbarthwyd eisoes) a gynhyrchwyd gan yr Adran Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yn amodol ar ddiwygiadau fel y'i hargymhellwyd yn Eitem Agenda Rhif 2, fel Maes Llafur Cytûn Sir Ddinbych ar gyfer Addysg Grefyddol.

Cyfeiriodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol at yr ymgynghoriad helaeth a gynhaliwyd cyn cynhyrchu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol yn cynnwys mewnbwn gan CYSAG. Tywysodd yr aelodau'n fyr drwy'r ddogfen gan amlygu agweddau penodol fel a ganlyn:-

- Roedd y tudalennau rhagarweiniol yn debyg iawn i feysydd testun eraill y cwricwlwm gyda chyfeiriad penodol at agweddau ar Addysg Grefyddol ar dudalen 10
- Cyfeiriai tudalennau 14 - 17 at Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaenol; Addysg Grefyddol oedd yr unig bwnc yn y cwricwlwm sylfaenol gyda chyfeiriad at y Cyfnod Sylfaenol ac ystod oed o 3 i 19 a oedd yn gyflawniad sylweddol [Roedd yn ddefnyddiol nodi hefyd y cyfeiriwyd at y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaenol ac yr oedd hyn gan fwyaf oherwydd gwaith Cymdeithas CYSAG Cymru]
- Cyfeiriai tudalennau 18/19 a 20/21 at Raglenni Astudiaeth yng Nghyfnodau Allweddol 2 & 3 yn seiliedig ar drefniadau newydd
- Rhoddai tudalennau 22/23 fanylion am ddisgrifiadau lefelau enghreifftiol ar gyfer Addysg Grefyddol
- Cyfeiriai tudalennau 24/25 at ganlyniadau Addysg Grefyddol dan Lefel 1
- Cyfeiriai tudalennau 27/29 at Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 4 a Thros 16 gan gyflwyno neges glir fod yna ofyniad statudol am Addysg Grefyddol ar y lefelau hynny.
- Cyfeiriai atodiadau i'r ddogfen at ofynion cyfreithiol ar gyfer meysydd llafur cytûn a gwybodaeth ychwanegol.

Cyflwynodd y Cadeirydd deyrnged i'r gwaith caled a wnaethpwyd gan bawb a oedd wedi cyfrannu at y ddogfen drwy'r broses ymgynghori.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a)* *yn amodol ar ddiwygiadau fel y'i hargymhellwyd yn Eitem Agenda Rhif 2, mabwysiadu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i rai rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru, a gynhyrchwyd gan Adran Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Faes Llafur Cytûn Sir Ddinbych ar gyfer Addysg Grefyddol, a*

*(b)* *bod yr Awdurdod Addysg Lleol i hysbysu ysgolion o'r penderfyniad i fabwysiadu'r Fframwaith yn Faes Llafur Cytûn Sir Ddinbych ac i sicrhau fod gan ysgolion gopïau o'r ddogfen.*

**2. DIWYGIADAU/YCHWANEGIADAU ARFAETHEDIG I'R FFRAMWAITH CENEDLAETHOL**

Ceisiodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol gymeradwyaeth aelodau i'r diwygiadau arfaethedig i'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (a ddosbarthwyd eisoes) er mwyn lleoli'r ddogfen a'u cynnwys yn y copïau sydd i'w hanfon i ysgolion fel Maes Llafur Cytûn Sir Ddinbych.

Esboniodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol y byddai'r diwygiadau arfaethedig i'r Fframwaith Cenedlaethol yn helpu ysgolion ac yn egluro rhai meysydd

ac yn helpu i sicrhau peth dilyniant o'r Maes Llafur Cytûn blaenorol. Argymhellwyd y dylai'r diwygiadau/ychwanegiadau i'r Fframwaith ddisodli'r Cyflwyniad presennol ar dudalennau 2 – 3. Amlinellodd y diwygiadau fel a ganlyn:-

- Eglurhad ynglŷn â'r gofyniad statudol i bob disgybl cofrestredig ym mhob ysgol a gynhelir hyd at 19 oed i dderbyn Addysg Grefyddol (ac eithrio'r rheiny sydd wedi eu tynnu'n ôl ar gais y rhieni/gwarcheidwad)
- Diagram wedi ei symleiddio yn esbonio sut y mae'r Maes Llafur Cytûn yn ffitio i mewn i'r cwricwlwm cyfan gyda chyfeiriadau at y gofynion yn ystod pob blwyddyn ysgol o 3 oed i 19 oed [byddai'r diagram yn cael ei ddiwygio i ddangos y Cwricwlwm Cenedlaethol hyd at 14 oed]
- Tabl yn rhoi manylion am grefyddau sydd i'w hastudio i sicrhau fod Cristnogaeth yn cael ei astudio ym mhob cyfnod a bod prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain yn cael eu cyflwyno; roedd cafeat wedi ei gynnwys hefyd yng Nghyfnod Allweddol 4 i adlewyrchu'r gwahanol anghenion ar gyfer TGAU
- Roedd cyfeiriadau at amcanion Addysg Grefyddol ynghyd ag Addoli Cyfunol ac Addysg Grefyddol fel darpariaethau arbennig wedi eu cynnwys gan nad oedd y materion hyn wedi eu cyfeirio o fewn dogfen y Fframwaith Cenedlaethol
- Roedd y disgwyliad am o leiaf 5% o amser cwricwlwm ar gyfer Addysg Grefyddol ym mhob Cyfnod Allweddol wedi ei amlygu
- Roedd disgrifiadau lefelau enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflawniad mewn Addysg Grefyddol wedi eu cynnwys o fewn y Maes Llafur Cytûn a disgwylid i ysgolion eu defnyddio i gofnodi cyraeddiadau disgyblion ar ddiwedd cyfnodau allweddol; gallai CYSAG ofyn am y wybodaeth yma fel rhan o'i broses statudol o fonitro safonau a dargludo Addysg Grefyddol yn ei ysgolion.

Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i godi cwestiynau gyda'r Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol ynglŷn â'r Maes Llafur Cytûn a cheisio eglurhad ynglŷn â darpariaeth Addysg Grefyddol Dros 16 i fyfyrwyr a oedd ynghlwm â Cholegau Addysg Bellach a lle'r oedd yna gydweithio gydag ysgolion. Nododd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol fod canllawiau ar y mater hwn yn cael eu ceisio ar hyn o bryd gan Estyn. Roedd y gofyniad statudol ar gyfer darparu Addysg Grefyddol yn gymwys i ysgolion yn unig ac yr oedd yr agenda cydweithio'n codi cwestiynau ynglŷn â'r ddarpariaeth. O ran trefniadau cydweithio roedd Estyn wedi hysbysu mai cyfrifoldeb yr ysgol oedd darparu Addysg Grefyddol ond yr oedd yna anawsterau ynglŷn â materion amserlen. Nododd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol y byddai'r Gynhadledd Addysg Grefyddol Dros 16 yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r mater ac yn darparu ystod o opsiynau i ysgolion wrth ddarparu Addysg Grefyddol.

***PENDERFYNWYD*** *fod y diwygiadau arfaethedig i'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (fel y'i gwelir yn Eitem Agenda Rhif 2)yn cael eu cymeradwyo a'u cynnwys yn y copïau sydd i'w hanfon at ysgolion fel Maes Llafur Cytûn Sir Ddinbych*

**3. MABWYSIAD MAES LLAFUR CYTÛN SIR DDINBYCH 2008 - 2013**

Ceisiodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol gymeradwyaeth aelodau i fabwysiadu'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol yn Sir Ddinbych. [Cynhadledd y Maes Llafur Cytûn oedd y corff statudol oedd â'r grym i bennu'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol yn Sir Ddinbych.]

Cyfeiriodd yr Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol at ddyluniad a phrintiad y ddogfen. Gan y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn debygol o adlewyrchu'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Sir Ddinbych, Sir Fflint a Chonwy, gofynnwyd i CYSAG gymeradwyo un ddogfen a oedd yn dangos logo pob un o'r tri Chyngor i'w printio a'u dosbarthu i arbed costau printio cysylltiedig. Dangosodd aelodau eu cydsyniad a'r argymhelliad gyda chymeradwyaeth CYSAG Sir Fflint a Chonwy i ddod.

Hysbyswyd yr aelodau y dosberthir y Maes Llafur Cytûn ynghyd â'r canllawiau atodol i ysgolion yn ystod tymor yr haf ac fe anfonir llythyrau at yr ysgolion yn fuan ynglŷn â hyn.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) mabwysiadu Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol yn Sir Ddinbych;*

*(b) bod yr Awdurdod Addysg Lleol i gynghori ysgolion o Faes Llafur Cytûn Sir Ddinbych a sicrhau fod gan ysgolion gopïau o'r ddogfen*

*(c) yn amodol ar gytundeb CYSAG Sir Fflint a Chonwy, bod y ddogfen Maes Llafur Cytûn yn cynnwys logo pob un o'r tri Awdurdod Addysg Lleol i adlewyrchu'r trefniadau cydweithio ac arbed costau printio cysylltiedig.*

Wrth gloi diolchodd y Cadeirydd i'r Archwiliwr/Cynghorydd Addysg Grefyddol, Clerc CYSAG a Chyfieithydd y Sir am eu gwaith caled.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 a.m.

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 18 Mehefin 2008 |
|---|---|---|---|
| Eitem yr Agenda | **4** | Adroddiad: | **Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu Estyn** |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Fel rhan o’i rôl o fonitro, mae CYSAG yn adolygu elfennau Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol (YMCD) ac Addysg Grefyddol Adroddiadau Arolygu Estyn ar ysgolion yr AALl.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Dadansoddi’r sylwadau a wnaed yn yr Adroddiadau Arolygu diweddar ar ysgolion yr AALl a nodi agweddau cadarnhaol a negyddol y ddarpariaeth YMCD ac Addysg Grefyddol lle roedd Addysg Grefyddol yn rhan o’r Arolygiad.

*Argymhellion:*

I CYSAG:
- cael y dadansoddiad o’r Adroddiadau Arolygu;
- cytuno bod llythyrau’n cael eu hanfon at yr ysgolion a Arolygwyd, yn eu llongyfarch ar y nodweddion da ac yn cynnig gwasanaethau’r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol neu swyddogion eraill yr AALl wrth fodloni’r diffygion neu’r materion allweddol.

I’r AALl:
- gofyn i’r AALl ddosbarthu’r llythyrau uchod;
- cynnig gwasanaethau’r Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol neu swyddogion eraill yr AALl i gynorthwyo ysgolion wrth fodloni’r diffygion neu’r materion allweddol.

**Eitem Agenda Rhif 4**

## SYLWADAU CYD-DESTUN: ADRODDIADAU AROLYGU CYSAG SIR DDINBYCH

**18 Mehefin 2008**

**2 Ysgol**

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Dyddiadau</th><th>Arolygydd Cofnodol</th><th>Arolygu YMCD/Cwestiwn Allweddol 3</th><th>Arolygiad Add. Grefyddol</th></tr>
<tr><td>Ysgol Trefnant</td><td>03/12/07</td><td>Merfyn Douglas Jones</td><td>Kerry Knapper</td><td>Heb ei arolygu</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae Ysgol Gynradd Trefnant sef Ysgol Wirfoddol a reolir gan yr Eglwys yng Nghymru ym mhentref bach Trefnant. Mae’r ysgol yn gwasanaethu cymuned wledig, ac mae’n tynnu ei disgyblion o’r pentref neu’r ardal gyfagos. Mae niferoedd y disgyblion wedi cynyddu’n gyson dros y pedair blynedd diwethaf. Ar hyn o bryd, mae 56 disgybl rhwng tair ac un-ar-ddeng mlwydd oed ar y gofrestr. Ystyrir nad yw’r ardal yn un sydd naill ai’n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Yn academaidd ac yn gymdeithasol, mae’r mewnlifiad yn cynnwys yr ystod lawn o allu, ond yn gyffredinol mae’n uwch na chyfartaledd yr awdurdod addysg lleol. Mae gan 5% o ddisgyblion hawl i brydau ysgol am ddim. Mae 13 disgybl wedi’u canfod ag anghenion addysgol arbennig, mae deg ar gam ‘gweithredu gan yr ysgol’ a 3 ar gam ‘gweithredu gan yr ysgol a mwy’. Nid oes yr un disgybl yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Mae 2% o gefndiroedd ethnig heb fod yn wyn. Gan gynnwys y Pennaeth, mae 3 o athrawon amser llawn ac un athrawes ran-amser. Mae 3 chynorthwyydd cymorth dysgu rhan-amser ac 1 weinyddes feithrin hefyd. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2001.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Babanod Bodnant</td><td>04/02/08</td><td>Linda J Williams</td><td>Enir Morgan</td><td>Heb ei arolygu</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae Ysgol Babanod Bodnant yn gwasanaethu ardal ym Mhrestatyn. Nid yw’r ysgol naill ai’n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Daw’r disgyblion sy’n mynychu’r ysgol o Brestatyn cyfan, yn enwedig o’r ardal gyfagos o gwmpas yr ysgol. Mae’r ysgol yn darparu ar gyfer plant tair i saith mlwydd oed. AALl Sir Ddinbych sy’n rheoli’r derbyniadau i’r ysgol. Mae’r disgyblion yn cynrychioli’r ystod lawn o alluoedd academaidd a chefndiroedd cymdeithasol. Ar adeg yr arolygiad, roedd 300 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 57 o blant sy’n mynychu’r feithrinfa’n rhan-amser. Mae 94% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf ac mae 6% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes yr un disgybl yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Mae 39 o ddisgyblion wedi’u canfod ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae gan 8 disgybl ddatganiad ffurfiol o AAA. Mae gan 13% o ddisgyblion hawl i brydau ysgol am ddim. Cyflawnodd yr ysgol y Marc Safon Sgiliau Sylfaenol ar dri achlysur; cwblhawyd cam 1 a 2 y Dyfarniad Ysgolion Iach; enillwyd Dyfarniad Sportsmark a’r Dyfarniad Hanes ar gyfer dathliad canmlwyddiant yr ysgol. Mae’r ysgol yn gweithio tuag at ennill y Faner Werdd Eco ar hyn o bryd.</td></tr>
</table>

**Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu**
**CYSAG Sir Ddinbych**
**18 Mehefin 2008**

# DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

## SYLWADAU CADARNHAOL

**Darpariaeth ar gyfer Datblygiad YMCD 2 Ysgol**

- Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Caiff ei hintegreiddio'n dda i fywyd beunyddiol yr ysgol a chaiff ei hyrwyddo mewn sawl pwnc. *(Ysgol Trefnant)*
- Mae'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn rhagorol *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Y Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig 2 Ysgol**

- Caiff dwyieithrwydd ei integreiddio'n dda i mewn i fywyd yr ysgol. *(Ysgol Trefnant)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig yn dda. Gwneir defnydd da o Gymraeg achlysurol yn ystod y diwrnod ysgol ac mae disgyblion yn cael eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru trwy bynciau fel hanes a daearyddiaeth a thrwy'r straeon a glywant, fel rhai'r Mabinogion. *(Ysgol Trefnant)*
- Mae'r gwaith o hyrwyddo cyfleoedd dwyieithog yn rhagorol. Mae'r staff yn cymryd pob cyfle i sicrhau bod disgyblion yn clywed Cymraeg yn cael ei siarad yn aml trwy gydol y dydd. Maent yn annog ac yn cefnogi disgyblion yn eu hymdrechion i ddefnyddio'r iaith hyd eithaf eu gallu. *(Ysgol Babanod Bodnant)*
- Caiff y Cwricwlwm Cymreig ei hyrwyddo'n effeithiol iawn ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac mae gwaith cynllunio'r athrawon yn cynnwys ymweliadau â mannau o ddiddordeb a threftadaeth Gymreig, gan gyfoethogi gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Elusennau ac achosion da 2 Ysgol**

- Yn ogystal, maen nhw wedi cynnal cysylltiadau gyda chyn ddisgybl sy'n byw ym Mecsico. Mae'r ysgol gyfan wedi helpu codi arian i ysgol yn Affrica ond nid oes cysylltiadau ffurfiol yng ngwaith cynllunio'r cwricwlwm. Mae'r disgyblion yn cael ystod dda o gyfleoedd i helpu codi arian i achosion teilwng. *(Ysgol Trefnant)*
- Trwy'r gefnogaeth i achosion elusennol, maent yn datblygu dealltwriaeth glir a pharch at bobl eraill sy'n llai ffodus na nhw eu hunain. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Nodau / ethos cyffredinol** **2 Ysgol**

- Adlewyrchir ethos a gweledigaeth yr ysgol yn y gwaith cynllunio a threfnu dyddiol. *(Ysgol Babanod Bodnant)*
- Mae ethos gofalgar a natur gynhwysol yr ysgol yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i fynd at y cwricwlwm cyfan. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Gweithgareddau / cyfleoedd allgyrsiol** **2 Ysgol**

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf wrth ddarparu mwy o brofiadau ar ôl ysgol ac oddi ar y safle o ansawdd gwell i ddisgyblion. Mae'r disgyblion bellach yn cael ystod dda o weithgareddau chwaraeon a diwylliannol ar ôl ysgol. *(Ysgol Trefnant)*
- Caiff ystod helaeth o weithgareddau allgyrsiol eu darparu i ddisgyblion trwy weithgareddau ar ôl ysgol yn ogystal â chlybiau amser cinio. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Cynnydd disgyblion / magu hyder / sgiliau** **2 Ysgol**

- Mae'r ddarpariaeth y mae'r ysgol yn ei gwneud i ddatblygu sgiliau allweddol a sylfaenol yn dda. Mae'r athrawon yn sicrhau'n llwyddiannus bod y defnydd o sgiliau allweddol yn treiddio i weithgareddau ym mhob gwers. Yn ystod yr adegau hynny, mae'r disgyblion yn nodi'n gywir y sgiliau allweddol a ddefnyddir ganddynt. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer TGCh a'r defnydd a wneir ohono mewn pynciau yn hynod dda *(Ysgol Trefnant)*
- Mae ymrwymiad yr ysgol i wella sgiliau allweddol trwy gynlluniau iaith, ABCh a rhifedd yn dda ac yn rhagorol mewn rhai achosion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sgiliau allweddol yn gwthio trwy bob agwedd ar gynllunio gwersi mewn ffordd eithriadol o gyson a chydlynol. Rhoddir pwyslais da ar feithrin iaith ansawdd da ar draws y cwricwlwm a cheir trefniadau effeithiol ar gyfer darparu cymorth ac adnoddau ychwanegol i ddisgyblion y mae eu lefelau cyrhaeddiad naill ai'n isel neu uwchlaw'r cyfartaledd. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Rhaglen ar gyfer / effaith darpariaeth ABCh** **2 Ysgol**

- Mae cynllunio ar gyfer datblygu addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn dda. Mae'n sicrhau y caiff cyfleoedd eu darparu ym mhob maes o'r cwricwlwm i wella sgiliau personol a chymdeithasol y disgyblion. *(Ysgol Trefnant)*
- Mae agweddau ar ABCh yn treiddio i bob pwnc o'r cwricwlwm ac maent yn cael effaith eithriadol o gadarnhaol ar ddysgu ac ar agweddau'r disgyblion. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Dinasyddiaeth fyd-eang / addysg y byd / cysylltiadau rhyngwladol** **2 Ysgol**

- Mae datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn feysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd gan yr ysgol. Mewn trafodaethau gyda disgyblion, gwnaethant ddangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r angen i

ailgylchu ac mae yna eco bwyllgor newydd ei sefydlu. Mae disgyblion cyfnod allweddol un yn ailgylchu poteli llaeth plastig ac mae ganddynt gompostiwr yn yr ardal y tu allan. *(Ysgol Trefnant)*
- Ceir rhai cysylltiadau gyda Mecsico y mae'r ysgol yn bwriadu eu hehangu. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Ymwybyddiaeth / Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy** **2 Ysgol**

- Mae datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn feysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd gan yr ysgol. Mewn trafodaethau gyda disgyblion, gwnaethant ddangos ymwybyddiaeth o'r angen i ailgylchu ac mae yna eco bwyllgor newydd ei sefydlu. Mae disgyblion cyfnod allweddol un yn ailgylchu poteli llaeth plastig ac mae ganddynt gompostiwr yn yr ardal y tu allan. *(Ysgol Trefnant)*
- Mae'r ffordd y mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn datblygu'n dda gyda'r ysgol yn gweithio tuag at eu Dyfarniad Eco Ysgol ar hyn o bryd. Mewn trafodaethau gyda disgyblion ar y cyngor eco, maent yn siarad yn ddeallus am yr angen i ailgylchu ac arbed ynni a dŵr. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Cyfle cyfartal** **2 Ysgol**

- Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a stereoteipio ac yn hyrwyddo mynediad a chyfle cyfartal i bob disgybl. Mae'r disgyblion y siaradwyd â nhw yn ystod yr arolygiad yn cadarnhau bod disgyblion, beth bynnag yw eu rhyw, hil neu anabledd, yn cael mynediad cyfartal i'r cyfan sydd gan yr ysgol i'w gynnig. *(Ysgol Trefnant)*
- Mae ethos gofalgar a natur gynhwysol yr ysgol yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i gael mynediad i'r cwricwlwm cyfan. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Ymweliadau addysgol / ymwelwyr** **2 Ysgol**

- Mae rhaglen gynhwysfawr o ymweliadau ar waith i wella dysgu mewn hanes, daearyddiaeth, gwyddoniaeth a TGCh ac mae'r disgyblion hŷn yn elwa ar ymweliadau preswyl â chanolfan addysg gweithgareddau amryfal Gwersyll yr Urdd Glan Llyn. *(Ysgol Trefnant)*
- Caiff y cwricwlwm ei wella gan amrywiaeth ragorol o ymweliadau addysgol a chan ymwelwyr i'r ysgol. Defnyddir y profiadau hyn yn effeithiol i atgyfnerthu agweddau gwahanol ar y cwricwlwm. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Cyfleoedd ar gyfer cyfrifoldeb a menter** **1 Ysgol**

- Mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu cyfrifoldebau corfforaethol trwy'r rolau a gyflawnir ganddynt yn yr ysgol, yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar adegau eraill yn ystod y diwrnod ysgol. Gall disgyblion hŷn sicrhau tegwch trwy'r system gyfeillio ac mae'r disgyblion yn cymryd rhan wrth wella'r ysgol trwy eu rolau ar y cyngor ysgol. Caiff y polisi maes chwarae, lle mae'r disgyblion wedi penderfynu ar y rheolau, ei fonitro gan 'Cyfeillion Bodnant' ac mae'n hynod effeithiol. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Arsylwi/hyrwyddo gwerthoedd/cwrteisi/parch** **1 Ysgol**

- Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos ymddygiad ystyrlon ac yn dysgu byw a chydweithio'n dda gyda'i gilydd. *(Ysgol Trefnant)*

**Ansawdd cydaddoli** **1 Ysgol**

- Mae'r gwasanaethau'n bwrpasol ac yn llawn boddhad. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n hyderus ac yn sensitif yn ystod yr achlysuron hyn. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Ansawdd y perthnasoedd** **1 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn cydweithio ac yn cyd-chwarae'n dda ac mae'r berthynas gyda'i gilydd yn dda. Mae'r disgyblion mwy galluog a hyderus yn fodlon helpu'r rhai llai galluog *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Cyfleoedd i fyfyrio** **1 Ysgol**

- Ceir adegau myfyriol tawel pan fydd disgyblion yn dod ar draws y dimensiwn ysbrydol ac yn ystyried gwirioneddau crefyddol. *(Ysgol Trefnant)*

**Cyfraniad cydaddoli at ddatblygiad YMCD** **1 Ysgol**

- Mae cydaddoli'n chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol a moesol y disgyblion. *(Ysgol Trefnant)*

**Datblygiad / darpariaeth foesol (a chymdeithasol)** **1 Ysgol**

- Mae datblygiad cymdeithasol a moesol yn cael blaenoriaeth uchel er mwyn i'r disgyblion ddysgu'r gwahaniaeth rhwng da a drwg, gonestrwydd a gofal am y rhai sy'n llai ffodus. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Cyfleoedd ar gyfer cydweithio / cydweithredu** **1 Ysgol**

- Mae'r disgyblion yn cydweithio ac yn cyd-chwarae'n dda ac mae'r berthynas gyda'i gilydd yn dda. Mae'r disgyblion mwy galluog a hyderus yn fodlon helpu'r rhai llai galluog. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Datblygiad diwylliannol** **1 Ysgol**

- Cynlluniwyd yn eithriadol o dda ar gyfer datblygiad diwylliannol y disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dysgu am draddodiadau a dathliadau sy'n gysylltiedig â'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ar lefel sy'n briodol i'w haeddfedrwydd. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Polisi ar hiliaeth / hyrwyddo cytgord hiliol** **1 Ysgol**

- Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a stereoteipio ac yn hyrwyddo mynediad a chyfle cyfartal i bob disgybl.

Mae disgyblion y siaradwyd â nhw yn ystod yr arolygiad yn cadarnhau bod disgyblion, beth bynnag yw eu rhyw, hil neu anabledd, yn cael mynediad cyfartal i'r cyfan sydd gan yr ysgol i'w gynnig *(Ysgol Trefnant)*

**Cysylltiadau / ymwneud â'r gymuned leol** **1 Ysgol**

- Mae'r cysylltiadau gyda'r eglwys a'r gymuned yn dda iawn. Cymer y disgyblion ran mewn ystod dda o ddigwyddiadau cymunedol gan gynnwys canu carolau mewn cartref preswyl lleol adeg y Nadolig a thrwy gyngherddau a gynhelir yn yr eglwys. Mae'r disgyblion yn addurno ffenestr yn yr eglwys ar gyfer gwyliau cynhaeaf, Nadolig a Phasg yr eglwys. Mae pob disgybl yn mynychu'r eglwys ar gyfer gwyliau a dyddiau'r Seintiau. *(Ysgol Trefnant)*
- Mae pob disgybl yn elwa ar yr ymweliadau y mae pobl o'r gymuned yn eu gwneud i wella ansawdd addoli ac i fywiogi eu gwaith mewn pynciau yn y cwricwlwm. *(Ysgol Trefnant)*

**Staff/oedolion fel modelau rôl** **1 Ysgol**

- Mae'r staff yn darparu modelau rôl gwych i ddisgyblion eu hefelychu. Maent yn annog pob disgybl i weithredu mewn ffyrdd sy'n dderbyniol yn foesol ac yn gymdeithasol er mwyn ymarfer hunanddisgyblaeth. Maent yn aml yn canmol disgyblion am eu cyflawniad academaidd a phersonol ac yn eu hannog i dderbyn a bod yn sensitif i feddyliau a theimladau pobl eraill. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at waith ac at ei gilydd. *(Ysgol Trefnant)*

**Cyfleoedd i gael gwybodaeth/ystyried gwerthoedd a chredoau**
**1 Ysgol**

- Ceir adegau myfyriol tawel pan fydd disgyblion yn dod ar draws y dimensiwn ysbrydol ac yn ystyried gwirioneddau crefyddol. *(Ysgol Trefnant)*

**Cyfrifoldeb ar gyfer eu dysgu eu hunain** **1 Ysgol**

- Mae disgyblion yn CA1 yn cymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. *(Ysgol Trefnant)*

## SYLWADAU NEGYDDOL

**Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Ymwybyddiaeth o ddiwylliannau neu draddodiadau eraill**
**1 Ysgol**

- Nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i archwilio'r dimensiwn diwylliannol o fyw mewn cymdeithas aml-ethnig. *(Ysgol Trefnant)*

**Cynnydd y disgyblion / magu hyder / sgiliau** **1 Ysgol**

- Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau datrys problemau a chreadigol y disgyblion wedi'i datblygu'n ddigonol. *(Ysgol Trefnant)*

**Dinasyddiaeth fyd-eang / addysg y byd / cysylltiadau rhyngwladol 1 Ysgol**

- Nid yw dinasyddiaeth fyd-eang wedi'i ddatblygu'n ddigonol ar hyn o bryd. *(Ysgol Babanod Bodnant)*

**Gwaith y Cyngor Ysgol 1 Ysgol**

- Mae'r cyfleoedd iddynt hwy neu eu cyngor ysgol wneud penderfyniadau o natur entrepreneuraidd yn gyfyngedig. *(Ysgol Trefnant)*

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 18 Mehefin 2008 |
|---|---|---|---|
| Eitem yr Agenda: | **5(a)** | Adroddiad: | **Adroddiad Monitro ac Adolygiad Cefnogol: ~ Consortiwm Ysgolion Ysgol Uwchradd Glan Clwyd** |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Fel rhan o'i rôl o fonitro, mae CYSAG yn cael adroddiadau ar ymweliadau ag ysgolion gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd a'r crynodeb o'r sawl ar gyfer y consortiwm.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Ystyried adroddiad gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (copi wedi'i amgáu) ar y ddarpariaeth Addysg Grefyddol yng Nghonsortiwm Ysgolion Ysgol Uwchradd Glan Clwyd.

*Argymhellion:*

I CYSAG:
- cael yr adroddiadau ar Gonsortiwm Ysgolion Ysgol Uwchradd Glan Clwyd;
- cytuno bod llythyrau'n cael eu hanfon at yr ysgolion gyda chopi o'r adroddiad llawn fel y cafodd ei gyflwyno i CYSAG;
- gofyn i'r AALl ddosbarthu'r llythyrau uchod;

I'r AALl: - dosbarthu'r llythyrau gan CYSAG i'r ysgolion.

Eitem Agenda Rhif 5(a)

**Adroddiad ar Ddarparu Addysg Grefyddol yng Nghonsortiwm Ysgolion Glan Clwyd**

***Ar gyfer CYSAG – 18 Mehefin 2008***

**1. Cefndir:**

Yn dilyn ymweliadau gan Arolygydd/Ymgynghorydd AG â phob un o'r ysgolion yn ystod tymor y gwanwyn, cytunwyd adroddiad ar yr ymweliad a'r materion a gododd a'r canlyniadau gyda'r ysgol. Yn dilyn mae'r Nodweddion Da, y Diffygion a'r Argymhellion ar gyfer pob ysgol, a chrynodeb cyffredinol o'r consortiwm cyfan.

**2. Darnau o'r Ymweliadau Ysgol:**

**a) Ysgol Uwchradd Glan Clwyd**

*Roedd ymweliad monitro'r ysgol hon yn cael ei wneud gan yr Ymgynghorydd o Cynnal, ac nid yw'r adroddiad ar yr ymweliad wedi'i dderbyn eto.*

**b) Ysgol y Llys**

Nodweddion da

- Yr Adroddiad Arolygu diweddar ar AG
- Cynllun gwaith clir a chynhwysfawr
- Ystod o weithgareddau ac ymagweddau dengar at addysgu a dysgu
- Proses fonitro yn glir ac effeithiol
- Darpariaeth ar gyfer gweithredoedd o gydaddoli

Meysydd i'w Datblygu

- Nid oedd yr un yn amlwg yn ystod yr ymweliad, er bod yr ysgol ei hun wedi clustnodi'r angen i wneud mwy o ddefnydd o ymwelwyr o'r traddodiadau ffydd.

Argymhellion

- Cynnal y nodweddion da iawn a glustnodwyd
- Cymryd camau i wahodd cynrychiolwyr o'r traddodiadau ffydd i gyfrannu at y rhaglen AG, fel y clustnodwyd gan yr ysgol.

**c) Ysgol Twm o'r Nant**

Nodweddion da

- System fonitro glir a chadarn
- Y cynllun â chydberthynas da â gofynion y Maes Llafur Cytûn
- Diwygiad cynlluniedig y cynllun i gwrdd â'r Fframweithiau newydd

Meysydd i'w Datblygu

- Mae'r ysgol wedi clustnodi'r angen i gynnwys mwy o'r gymuned ffydd leol yn yr AG a'r cydaddoli – ac maent yn ceisio gwneud hynny ar hyn o bryd.
- Asesu cyflawniad a dilyniant disgyblion mewn AG.

Argymhellion

- Cynnal yr arfer da a ganfuwyd.
- Gweithredu'r bwriad (sydd eisoes ar droed):
  - i adolygu'r cynllun gwaith yng ngoleuni'r newidiadau i'r Cwricwlwm
  - i gynnwys aelodau'r gymuned ffydd leol yn y rhaglen AG a chydaddoli
- Ystyried - fel rhan o'r adolygiad o'r cynllun – ddefnydd Defnyddiau Asesu Dewisol ACCAC a Lefelau'r Maes Llafur Cytûn wrth gofnodi cynnydd a chyflawniad disgyblion mewn AG.

**d) Ysgol Dewi Sant**

Nodweddion da

- Ystod dda o weithgareddau a dulliau addysgu a dysgu
- Cysylltiadau â'r gymuned ffydd leol

Meysydd i'w Datblygu

- Clustnododd yr ysgol yr angen i adolygu dilyniant a'r sylw a roddir i Hindŵaeth ac Islam yn y Cynllun Gwaith
- Asesu cyflawniad

<u>Argymhellion</u>

- Gweithredu'r adolygiad o'r cynllun gwaith sydd yn ei le ar hyn o bryd, ac o ddilyniant yn nhermau crefyddau heblaw Cristnogaeth
- Ystyried defnydd Defnyddiau Asesu Dewisol ACCAC ar gyfer AG, a system o gofnodi cyflawniad gan ddefnyddio lefelau'r Maes Llafur Cytûn a'r Fframwaith Enghreifftiau Patrymol Cenedlaethol ar gyfer AG.

**3. Sylwadau Cyffredinol**

<u>Nodweddion Da</u>

- Proses fonitro yn glir ac effeithiol (2 Ysgol)
- Ystod dda o weithgareddau a dulliau addysgu a dysgu (2 Ysgol)
- Cynllun gwaith clir a chynhwysfawr (2 Ysgol)

Roedd y lleill i gyd ar gyfer ysgolion unigol:

- Yr Adroddiad Arolygu diweddar ar AG
- Y ddarpariaeth ar gyfer gweithredoedd o gydaddoli
- Diwygiad cynlluniedig y cynllun gwaith i gwrdd â'r Fframwaith newydd
- Cysylltiadau â'r gymuned ffydd leol

<u>Meysydd i'w Datblygu:</u>

- *Yr angen i gynnwys mwy o'r gymuned ffydd leol mewn AG a chydaddoli ac i wneud mwy o ddefnydd o ymwelwyr o'r traddodiadau ffydd. (2 Ysgol)
- Asesu cyflawniad a dilyniant disgyblion. (2 Ysgol)

(*) Mae ysgolion wedi clustnodi'r agweddau hyn yn feysydd i'w datblygu

Roedd yr unig faes arall ar gyfer ysgol unigol

- Adolygu dilyniant a'r sylw a roddir i Hindŵaeth ac Islam yn y cynllun gwaith.

Argymhellion:

- Cynnal yr arfer da a ganfuwyd (2 Ysgol)
- Cymryd camau i wahodd cynrychiolwyr o'r traddodiadau ffydd i gyfrannu at y rhaglen AG a chydaddoli, fel y clustnodwyd gan yr ysgolion. (2 ysgol)
- Ystyried defnydd Defnyddiau Asesu Dewisol ACCAC a lefelau'r Maes Llafur Cytûn wrth gofnodi cynnydd a chyflawniad disgyblion mewn AG. (2 Ysgol)

Roedd yr holl argymhellion eraill ar gyfer ysgolion unigol:

- Gweithredu'r adolygiad arfaethedig (sydd eisoes ar droed) o'r cynllun gwaith yng ngoleuni'r newidiadau i'r cwricwlwm
- Gweithredu'r adolygiad o'r cynllun gwaith sydd yn ei le ar hyn o bryd ac o ddilyniant yn nhermau crefyddau heblaw Cristnogaeth.

Safonau:

Roedd Adroddiadau Arolygu diweddar yn barnu'r safonau yn y ddau Gyfnod Allweddol yn Radd 2 (Nodweddion da a dim diffygion o bwys) (2 Ysgol)

Yn un ysgol barnwyd safonau yn Dda yn yr Arolygiad yn 2003 yn y ddau Gyfnod Allweddol. Nid oedd hi'n bosibl rhoi barn yn ystod yr ymweliad gan fod gwaith yn y portffolios yn tueddu i fod wedi'i ddyddio'n bennaf o gyfnod yr Arolygiad. Er hynny, teimlai'r cydlynydd pwnc fod safonau'n cael eu cynnal.

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 18 Mehefin 2008 |
|---|---|---|---|
| Eitem yr Agenda: | **5(b)** | Adroddiad: | **Darpariaeth Addysg Grefyddol: Ysgolion Rhagorol** |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Fel rhan o'i rôl o fonitro, mae CYSAG yn cael adroddiadau ar ymweliadau ag ysgolion gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd a'r crynodeb o'r rhai ar gyfer y consortiwm. Mae'r broses hon wedi parhau er 2004.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Gwneud aelodau'n gyfarwydd â sefyllfa Addysg Grefyddol a chydaddoli yn yr ysgolion na chafodd eu hymweld fel rhan o'u consortiwm am ryw reswm neu'i gilydd.

*Argymhellion:*

I CYSAG:
- cael yr adroddiadau ar yr ysgolion rhagorol;
- cytuno bod llythyrau'n cael eu hanfon at yr ysgolion gyda chopi o'r adroddiad llawn fel y cafodd ei gyflwyno i CYSAG;
- gofyn i'r AALl ddosbarthu'r llythyrau uchod;

I'r AALl:
- dosbarthu'r llythyrau gan CYSAG i'r ysgolion.

**Eitem Agenda Rhif 5(b)**

**Adroddiad ar Ddarparu Addysg Grefyddol**
**Ysgolion Na Chynhwyswyd yn Ymweliadau'r Consortiwm**

***Ar gyfer CYSAG – Mehefin 2008***

**1. Cefndir:**

Mae'r gyfres yma o adroddiadau ar gyfer ysgolion na ymwelwyd â hwy, oherwydd nifer o resymau, ar yr un pryd ag oedd y consortiwm o ysgolion y maent yn perthyn iddo yn cael ei drin. Fel gyda phob monitro, yn dilyn yr ymweliadau gan Arolygydd/Ymgynghorydd AG â phob un o'r ysgolion yn ystod tymor y gwanwyn, cytunwyd adroddiad ar y materion a gododd a'r canlyniadau gyda'r ysgol. Yn dilyn mae'r Nodweddion Da, Meysydd i'w Datblygu ac Argymhellion ar gyfer pob ysgol, a chrynodeb cyffredinol grŵp cyfan yr ysgolion hyn.

**2. Darnau o'r Ymweliadau Ysgol:**

**a) Ysgol Bryn Clwyd, Llandyrnog (Consortiwm Ysgol Uwchradd Dinbych)**

*Nodweddion Da*

- Hunanwerthusiad y pwnc a'r clustnodi clir ar feysydd i'w datblygu.
- Y polisi cynhwysfawr ar gyfer AG
- Defnydd Cwestiynau a Chysyniadau Allweddol yng Nghynllun Gwaith CA2
- Sicrwydd y pwnc yn yr amserlen.

*Meysydd i'w Datblygu*

- Crefyddau heblaw Cristnogaeth yn y cynllun (*)
- Defnydd TGCh wrth addysgu a dysgu mewn AG (*)
- Cryfhau'r ffocws ar agweddau/gwestiynau allweddol yn y cynllun (*)
- Asesu a chofnodi cyflawniad (*)
- Mwy o gysylltiad rhwng y cwricwlwm a addysgir a bywyd pob dydd (*)
- Sicrhau y cydymffurfir â'r gofyn statudol am gydaddoli dyddiol

(* Clustnododd yr ysgol y rhain yn feysydd i'w datblygu)

*Argymhellion*

- Cynnal yr arfer da.
- Mynd ati i fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu sydd wedi'u cynnwys yn nogfen hunanwerthuso'r pwnc.
- Cywiro cynhwysiad crefyddau heblaw Cristnogaeth sydd y tu allan i gyfyngiadau'r Maes Llafur Cytûn yn y cynllun ar gyfer AG
- Sicrhau bod y disgyblion i gyd yn profi gweithred ddyddiol o gydaddoli.

**b) Ysgol Trefnant (Consortiwm Ysgol Uwchradd Dinbych)**

*Nodweddion Da*

- Darpariaeth gyffredinol ar gyfer cydaddoli, gyda chanu da yn ystod gweithredoedd o addoli.
- Datblygu cysylltiadau gyda'r gymuned leol.
- Mae'r pwnc yn sicr yn y cwricwlwm

*Meysydd i'w Datblygu*

- Diwygio'r cynllun gwaith i adlewyrchu'r cwricwlwm diwygiedig, a datblygu adnoddau ar gyfer y pwnc. (*)
- Ymestyn yr ystod o ddulliau addysgu a dysgu (*)
- Datblygiad strwythuredig themâu tymhorol megis y Nadolig a'r Pasg ar draws y grwpiau blwyddyn.

*(*) Mae'r materion uchod yn hysbys i'r ysgol a byddir yn mynd i'r afael â hwy wrth i'r cynllun gwaith gael ei ddiwygio i gwrdd â'r gofynion newydd.*

*Argymhellion*

- Gweithredu'r datblygiadau arfaethedig ar gyfer y pwnc, fel y clustnodwyd uchod.
- Datblygu ymagwedd strwythuredig at y Nadolig a'r Pasg o fewn y diwygiadau i'r cynllun gwaith.
- Ehangu'r ystod o ddulliau addysgu a dysgu, ac yn arbennig cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 fynegi eu hymatebion a'u syniadau eu hunain i'r testunau y maent yn eu hastudio.

**c) Ysgol Bro Elwern, Gwyddelwern (Consortiwm Ysgol Uwchradd Brynhyfryd)**

*Nodweddion Da*

- Lle sicr y pwnc ar yr amserlen.
- Datblygiad cynlluniau'r consortiwm ar gyfer y pwnc.
- Cysylltiadau cadarnhaol gyda'r gymuned ffydd leol.

*Meysydd i'w Datblygu*

- Adolygu'r Cwricwlwm a thasgau mwy penagored (*)
- Datblygu gweithdrefnau asesu a chofnodi yn unol â'r Maes Llafur Cytûn newydd.

*(*Clustnododd yr ysgol y rhain yn feysydd i'w datblygu)*

*Argymhellion*

- Cynnal yr arfer da.
- Parhau datblygiadau'r cynllun a'r adolygiad yng ngoleuni'r Cwricwlwm Diwygiedig a'r Maes Llafur Cytûn, yn arbennig mewn perthynas ag asesu.

**d) Ysgol Pentrecelyn (Consortiwm Ysgol Uwchradd Brynhyfryd)**

*Nodweddion Da*

- Cynlluniau ar gyfer newid a datblygu'r cynllun gwaith ar gyfer AG
- Natur ryngweithiol yr addysgu a'r dysgu

*Meysydd i'w Datblygu*

- Diwygio'r cynllun i gwrdd â'r gofynion newydd (*)
- Ffocws yn seiliedig ar sgiliau ar gyfer gwaith mewn AG (*)
- Trefniadau asesu yng ngoleuni'r Maes Llafur Cytûn newydd (*)

*(*Clustnododd yr ysgol y rhain yn feysydd i'w datblygu)*

*Argymhellion*

Roedd yr ysgol yn hyderus mai Gradd 3 oedd y safonau: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion, yn symud tuag at Radd 2: Nodweddion da a dim diffygion o bwys, o ystyried y gwaith sydd ar y gweill. Nid oedd hi'n bosibl cadarnhau'r farn hon yn ystod yr ymweliad.

**e) Ysgol Pant Pastynog (Consortiwm Ysgol Uwchradd Dinbych)**

*Nodweddion Da*

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cydaddoli yn gadarn, ac mae'r profiadau a gynigir yn barchus ac ystyrlon.
- Mae'r ddogfen hunanwerthuso yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn glir; ymddengys y rhain yn briodol a hylaw.
- Mae'r cysylltiadau â'r gymuned ffydd leol yn gadarnhaol ac yn cyfrannu at gydaddoli ac at AG o fewn yr ysgol.
- Mae yna ystod dda o wahanol arddulliau gweithio a dysgu yn llyfrau'r disgyblion.

*Meysydd i'w Datblygu*

- Gwelliannau i'r cynllun gwaith i gynnwys mwy o Islam, ac i adlewyrchu'r ymagwedd newydd yn y Maes Llafur Cytûn newydd (*)
- Asesu cyflawniad disgyblion.

*(*) Mae hunanwerthusiad yr ysgol yn clustnodi'r agweddau hyn.*

*Argymhellion*

- Cynnal yr arfer da a ganfuwyd.
- Gweithredu'r diwygiadau arfaethedig i'r cynllun fel y clustnodwyd yn y ddogfen hunanwerthuso.
- Paratoi i gofnodi asesiadau'r athrawon ar gyflawniadau disgyblion wrth i'r cynllun gael ei newid a'i addasu i'r Maes Llafur Cytûn newydd.

**f) Ysgol Rhewl (Consortiwm Ysgol Uwchradd Brynhyfryd)**

*Nodweddion Da*

- Diwygiadau cynlluniedig i'r cynllun gwaith
- Rhaglen i ailfywiogi'r cysylltiadau gyda'r gymuned ffydd leol
- Meysydd i'w datblygu wedi'u clustnodi ac yn gweithio arnynt

*Meysydd i'w Datblygu*

- Diffyg adnoddau ar gyfer CA 2 (*)
- Dim asesu ffurfiol ar gyflawniad mewn AG (*)

(* Clustnodwyd y meysydd hyn gan yr ysgol yn ei gwerthusiadau ei hun o'r pwnc)

*Argymhellion*

- Parhau'r broses o ddiwygio'r cynllun gwaith yng ngoleuni'r Maes Llafur Cytûn newydd a defnyddiau cefnogi eraill at y diben hwnnw.
- Cynnwys yn y diwygiadau i'r cynllun brosesau priodol i gofnodi cyflawniad disgyblion mewn AG – yn unol â'r defnyddiau a'r cyfarwyddyd gan y CYSAG/AALl.
- Gweithredu'r cryfhau a'r datblygu arfaethedig ar y cysylltiadau gyda'r gymuned ffydd leol ar gyfer AG ac ar gyfer cydaddoli.
- Ystyried ffyrdd o wella 'arbenigrwydd' cydaddoli.

**g) Ysgol Dyffryn Iâl (Consortiwm Ysgol Uwchradd Brynhyfryd)**

*Nodweddion Da*

- Mae'r cynllun gwaith diwygiedig yn glir a chynhwysfawr.
- Mae'r adroddiad hunanwerthuso yn gryno a chlir.
- Darpariaeth ar gyfer gweithredoedd o gydaddoli.
- Cysylltiadau â'r gymuned ffydd leol.

*Meysydd i'w Datblygu*

- Datblygu portffolio gwaith yr ysgol (*)
- Monitro gwaith y disgyblion a gwerthuso'r cynllun diwygiedig (*)
- Datblygu'r ddealltwriaeth o'r Ffydd Iddewig yn y cynllun ymhellach (*)

*(* Clustnodwyd y rhain yn flaenoriaethau uchel yn nogfen hunanwerthuso'r ysgol)*

*Argymhellion*

- Gweithredu'r datblygiadau arfaethedig a glustnodwyd yn y cynllun hunanwerthuso a datblygu.
- Cynnal yr arfer da a glustnodwyd yn yr adroddiad uchod.
- Cymryd camau priodol i sicrhau bod y cynllun diwygiedig yn cael ei ail-berthnasu'n glir â'r Maes Llafur Cytûn newydd wrth iddo gael ei roi ar waith fesul cam o fis Medi 2008.

## 3. Sylwadau Cyffredinol

<u>Nodweddion da</u>

- Lle sicr y pwnc ar yr amserlen (2 ysgol)
- Cysylltiadau datblygol gyda'r gymuned ffydd leol ac mewn un ysgol maent yn gadarnhaol ac yn cyfrannu at AG ac at gydaddoli (4 ysgol)
- Hunanwerthusiad y pwnc ac mae'n glir wrth glustnodi cryfderau a meysydd i'w datblygu (3 ysgol)
- Cynlluniau ar gyfer newid a datblygu'r cynllun gwaith ar gyfer AG (2 ysgol)
- Y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer cydaddoli (3 ysgol)

Roedd y lleill i gyd ar gyfer ysgolion unigol

- Datblygu cynlluniau'r consortiwm ar gyfer y pwnc
- Y polisi cynhwysfawr ar gyfer AG
- Defnydd Cwestiynau a Chysyniadau Allweddol yng Nghynllun Gwaith CA2
- Natur ryngweithiol yr addysgu a'r dysgu
- Mae yna ystod dda o wahanol arddulliau gweithio a dysgu yn llyfrau'r disgyblion.
- Mae gwaith yn mynd ymlaen ar y meysydd a glustnodwyd i'w datblygu

<u>Meysydd i'w Datblygu</u>

- Asesu cyflawniad disgyblion ((* 1 ysgol) 2 ysgol)
- Trefniadau asesu yng ngoleuni'r Maes Llafur Cytûn newydd (*) (2 ysgol)

* Mae ysgolion wedi clustnodi'r agweddau hyn yn feysydd i'w datblygu

Roedd yr holl feysydd eraill i'w datblygu ar gyfer ysgolion unigol

- Diwygio'r cynllun i gwrdd â'r gofynion newydd (*)
- Ffocws yn seiliedig ar sgiliau ar gyfer gwaith mewn AG (*)
- Datblygu portffolio gwaith yr ysgol (*)
- Monitro gwaith y disgyblion a gwerthuso'r cynllun diwygiedig (*)
- Datblygu'r ddealltwriaeth o'r Ffydd Iddewig yn y cynllun ymhellach (*)
- Gwelliannau i'r cynllun gwaith i gynnwys mwy o Islam ac i adlewyrchu'r ymagwedd newydd yn y Maes Llafur Cytûn newydd (*)
- Diffyg adnoddau ar gyfer CA2 (*)
- Diwygio'r cynllun gwaith i adlewyrchu'r cwricwlwm diwygiedig a datblygu adnoddau ar gyfer y pwnc (*)
- Ymestyn yr ystod o ddulliau addysgu a dysgu (*)
- Datblygiad strwythuredig themâu tymhorol megis y Nadolig a'r Pasg ar draws y grwpiau blwyddyn (*)
- Crefyddau heblaw Cristnogaeth yn y cynllun (*)
- Defnydd TGCh wrth addysgu a dysgu mewn AG (*)
- Cryfhau'r ffocws ar agweddau / gwestiynau allweddol yn y cynllun (*)
- Asesu a chofnodi cyflawniad (*)
- Mwy o gysylltiad rhwng y cwricwlwm a addysgir a bywyd pob dydd (*)
- Sicrhau y cydymffurfir â'r gofyn statudol am gydaddoli dyddiol
- Adolygu'r cwricwlwm a thasgau mwy penagored (*)

(*) Mae ysgolion wedi clustnodi'r agweddau hyn yn feysydd i'w datblygu

<u>Argymhellion</u>

- Cynnal yr arfer da (4 ysgol)
- Mynd ati i fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu sydd wedi'u cynnwys yn nogfen hunanwerthuso'r pwnc. (3 ysgol)
- Parhau datblygiadau'r cynllun a'r adolygiad yng ngoleuni'r Cwricwlwm Diwygiedig a'r Maes Llafur Cytûn, yn arbennig mewn perthynas ag asesu. (2 ysgol)
- Gweithredu'r datblygiadau arfaethedig ar gyfer y pwnc (2 ysgol)

Roedd yr holl feysydd eraill ar gyfer ysgolion unigol

- Cywiro cynhwysiad crefyddau heblaw Cristnogaeth sydd y tu allan i gyfyngiadau'r Maes Llafur Cytûn yn y cynllun ar gyfer AG.
- Sicrhau bod y disgyblion i gyd yn profi gweithred ddyddiol o gydaddoli.

- Datblygu ymagwedd strwythuredig at y Nadolig a'r Pasg o fewn y diwygiadau i'r cynllun gwaith
- Ehangu'r ystod o ddulliau addysgu a dysgu ac yn arbennig cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 fynegi eu hymatebion a'u syniadau eu hunain i'r testunau y maent yn eu hastudio.
- Parhau'r broses o ddiwygio'r cynllun gwaith yng ngoleuni'r Maes Llafur Cytûn newydd a defnyddiau cefnogi eraill at y diben hwnnw
- Cynnwys yn y diwygiadau i'r cynllun brosesau priodol i gofnodi cyflawniad disgyblion mewn AG – yn unol â'r defnyddiau a'r cyfarwyddyd gan y CYSAG/AALl
- Gweithredu'r cryfhau a'r datblygu arfaethedig ar y cysylltiadau gyda'r gymuned ffydd leol ar gyfer AG ac ar gyfer cydaddoli
- Ystyried ffyrdd o wella 'arbenigrwydd' cydaddoli
- Paratoi i gofnodi asesiadau'r athrawon ar gyflawniadau disgyblion wrth i'r cynllun gael ei newid a'i addasu i'r Maes Llafur Cytûn newydd

<u>Safonau.</u>

Yn un ysgol nid oedd hi'n bosibl rhoi barn ar safonau oddi wrth y gwaith a adolygwyd, ond mae'r ysgol i fod i'w harolygu. Yn un ysgol roedd sampl fach o waith ar gael ac yn ymddangos fel petai'n cadarnhau barn glir yr ysgol mai Gradd 2 oedd y safonau (Nodweddion da heb unrhyw ddiffygion o bwys). Teimlai tair ysgol, y barnwyd eu bod bob un yn Radd 3 (Nodweddion da yn gorbwyso diffygion) yn eu harolygiad diwethaf, eu bod yn awr yn symud tuag at Radd 2, er nad oedd hi'n bosibl cadarnhau'r farn yma yn ystod yr ymweliad. Yn arolygiad diwethaf un ysgol yn 2003 roedd safonau'n foddhaol. Mae'r ysgol yn hyderus yn awr, o ystyried y newidiadau i'w chynllun gwaith a chyflwyniad y pwnc, y byddai safonau'n cael eu barnu'n Radd 2 yn awr. Nid oedd hi'n bosibl cadarnhau'r farn yma yn ystod yr ymweliad. Yn un ysgol roeddynt yn hyderus fod y disgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu a chyflawni eu potensial mewn AG. Er nad oedd hi'n bosibl cadarnhau hyn fel y cyfryw o'r sampl o lyfrau oedd ar gael, roedd tystiolaeth glir fod y pwnc yn sicr yn yr amserlen ac o ymagwedd briodol at yr addysgu a'r dysgu. Wrth i'r cynllun ddatblygu'n unol â'r cwricwlwm diwygiedig a'r Maes Llafur Cytûn, mae'r potensial i hyn gael ei gyflawni'n llawnach ac yn gliriach yno.

| **Cyngor Sir Ddinbych**<br>**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)** | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 18 Mehefin 2008 |
| Eitem yr Agenda: | **5(c)** | Adroddiad: | **Darpariaeth Addysg Grefyddol: Crynodeb o Ymweliadau Monitro** |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Fel rhan o'i rôl o fonitro, mae CYSAG yn cael adroddiadau ar ymweliadau ag ysgolion gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd a'r crynodeb o'r rhai ar gyfer y consortiwm. Mae'r broses hon wedi parhau er 2004.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Gwneud yr aelodau'n gyfarwydd â'r cynodeb o'r holl ymweliadau monitro hyd yma, sy'n ymdrin â phob ysgol namyn dwy.

*Argymhellion:*

I CYSAG:
- cael yr adroddiad ar grynodeb yr ymweliadau monitro;
- ystyried targedu gwelliannau ysgol i'r dyfodol mewn perthynas â'r adroddiadau hyn, canlyniadau'r arholiadau, a'r trafodaethau gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Addysgol newydd

I'r AALl:

**Eitem Agenda Rhif 5c**

**Crynodeb o Raglen Monitro CYSAG:**
**Hydref 2004 – Gwanwyn 2008**

***(Ar gyfer CYSAG – Mehefin 2008)***

Fe ymwelwyd â 43 o'r 62 o ysgolion yn Sir Ddinbych (ac eithrio ysgol Santes Brigid a chydgwmnïau BEJ) yn ystod y cyfnod hwn, ac fe ddangosir y materion cronnus sy'n codi yn y pedair agwedd sydd wedi ymddangos yn adroddiadau'r consortiwm fel y'u cyflwynwyd i CYSAG.
pect

***Nodweddion Da***

| | **Ysgolion** |
|---|---|
| ▪ Ystod dda o weithgareddau a dulliau addysgu a dysgu | 20 |
| ▪ Y broses monitro'n glir ac yn effeithiol | 19 |
| ▪ Cysylltiadau gyda'r gymuned ffydd leol | 19 |
| ▪ Cynllun Gwaith clir a chynhwysfawr | 17 |
| ▪ Cynllunio a darpariaeth/dargludiad addoli cyfunol | 13 |
| ▪ Lleoliad cadarn Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm | 12 |
| ▪ Gweithdrefnau asesu a threfniadau cofnodi | 8 |
| ▪ Tystiolaeth dda o broses hunan werthuso | 5 |
| ▪ Ymrwymiad staff sy'n ymglymedig/gyfrifol am Addysg Grefyddol | 8 |
| ▪ Cynlluniau datblygu priodol yn eu lle ar gyfer y pwnc | 4 |
| ▪ Defnydd o arteffactau ac ymdriniaeth ymarferol ag Addysg Grefyddol | 3 |
| ▪ Ethos da / awyrgylch deuluol yn yr ysgol | 3 |
| ▪ Cynlluniau i ddatblygu'r Cynllun Gwaith ar gyfer Addysg Grefyddol | 3 |
| ▪ Swm y gwaith a gynhyrchir mewn gwersi Addysg Grefyddol | 2 |
| ▪ Natur ddwyieithog y dysgu a chefnogaeth iaith ychwanegol | 2 |
| ▪ Ymdriniaeth â materion allweddol/diffygion a nodwyd yn Adroddiad yr Archwiliad diwethaf | 2 |

Yn ogystal roedd yna tua 25 o nodweddion da eraill wedi eu rhestru ar gyfer ysgolion unigol (ac felly nid ydynt wedi eu hailadrodd yma).

***Meysydd i'w Datblygu:***

| | |
|---|---|
| ▪ Gweithdrefnau asesu a chofnodi cyflawniad | 11 |
| ▪ Datblygiad adnoddau | 3 |
| ▪ Cyfleoedd i ddisgyblion gynnig ymatebion personol i'r gwaith mewn Addysg Grefyddol, ac i roi eu syniadau eu hunain | 7 |
| ▪ Ailadrodd yn y cynllun gwaith, yn cynnwys testunau tymhorol fel y Nadolig a'r Pasg | 4 |

- Trefniadau asesu yng ngoleuni'r Maes Llafur Cytûn newydd — 2
- Nid yw rhai tasgau'n arwain at y ddealltwriaeth a'r gwerthusiad gorau o Addysg Grefyddol — 2
- Ymdrin â chrefyddau eraill ar wahân i Gristnogaeth — 2
- Nodi cysylltiadau rhwng cynllun a Maes Llafur Cytûn — 2

Yn ogystal, roedd yna 23 o feysydd eraill ar gyfer datblygu a restrwyd ar gyfer ysgolion unigol (ac felly ni ydynt wedi eu hailadrodd yma).

***Argymhellion***

- Cynnal yr ymarfer da mewn Addysg Grefyddol a/neu addoli cyfunol — 24
- Gweithredu / datblygu'r adolygiad arfaethedig i'r cynllun gwaith o ran y Cwricwlwm Cenedlaethol a adolygwyd — 14
- Datblygu gweithdrefnau asesu a chofnodi ar gyfer Addysg Grefyddol — 7
- Gweithredu adolygiadau i'r polisi / hunan werthusiad Addysg Grefyddol — 6
- Cynnwys mwy o dasgau / cyfleoedd i gysylltu disgyblion â dysgu oddi wrth / neu ymateb i grefydd/materion crefyddol — 5
- Cychwyn neu sefydlu gweithdrefnau i asesu a chofnodi — 4
- Nodi cysylltiadau â'r Maes Llafur Cytûn / Defnyddio Deunyddiau Asesu Dewisol wrth gofnodi cynnydd a chyraeddiadau disgyblion mewn Addysg Grefyddol — 4
- Angen cynnwys mwy o'r gymuned ffydd leol mewn Addysg Grefyddol — 4
- Adolygu tasgau yn y cynllun ac archwilio ystod y profiadau — 2
- Coethi gwaith Blynyddoedd Cynnar i ddelio ag elfennau Addysg Grefyddol a nodwyd yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaenol — 2

Yn ogystal roedd yna 33 o argymhellion a restrwyd ar wahân ar gyfer ysgolion unigol (ac felly nid ydynt wedi eu hailadrodd yma).

***Safonau:***

- Gradd 1 (Da gyda nodweddion pwysig) — 5
- Gradd 2 (Nodweddion da a dim diffygion pwysig) — 17
- Gradd 3 (Nodweddion da yn gorbwyso diffygion) — 8
- Gradd 4 (Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn mannau pwysig) — 1
- Gradd 5 (Llawer o ddiffygion)
- Ni wnaethpwyd dyfarniad — 12

*Noder: Mewn rhai o'r ysgolion roedd graddau'n seiliedig ar y Canllawiau Archwilio blaenorol, ac maent wedi eu trosi yma i'r graddau cyfredol.*

<table>
<tr><td colspan="4">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>18 Mehefin 2008</td></tr>
<tr><td>Eitem yr Agenda:</td><td>6(a)</td><td>Adroddiad:</td><td>Cymdeithas CYSAG Cymru: cyfarfod diwethaf – adroddiad a chofnodion geiriol</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Cefndir yr Adroddiad:</u><br><br>Mae CYSAG yn aelodau o Gymdeithas CYSAG Cymru ac maent yn anfon cynrychiolwyr i bob cyfarfod. Fel arfer rhoddir cofnodion ac adroddiadau geiriol gan y cynrychiolwyr sy'n mynychu.</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Pwrpas yr Adroddiad:</u><br><br>Gwneud aelodau'n gyfarwydd â chynnwys a ffocws y cyfarfod blaenorol, a gweithredu gwybodaeth ac ymatebion fel sy'n briodol.</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Argymhellion:</u><br><br>I CYSAG: Cael cofnodion drafft y cyfarfod;<br>cael arsylwadau'r cynrychiolwyr sy'n mynychu.<br><br>I'r AALl:</td></tr>
</table>

**Denbighshire County Council**
**Standing Advisory Council for Religious Education (SACRE)**

| Date of Meeting: | | | 18th June 2008 |
|---|---|---|---|
| Agenda Item: | **6(a)** | Report: | **WASACRE: last meeting – verbal report and minutes** |

*Background to the Report:*

The SACRE are members of the Wales Association of SACREs and send representatives to each meeting. Minutes and verbal reports from representatives attending are usually given.

*Purpose of the Report:*

To acquaint members with the content and focus of the previous meeting, and for information and responses to be actioned as appropriate.

*Recommendations:*

To SACRE: To receive the draft minutes of the meeting; to receive the observations of representatives attending.

To the LEA:

**Carmarthen**
**March / Mawrth 14 2008**

## Present / Persennol

Anglesey / Ynys Mon
Rheinallt Thomas

Blaenau Gwent
Gill Vaisey
Paula Webber

Bridgend / Pen y bont ar Ogwr
Carys Thomas
E.T.Evans

Caerphilly / Caerffili
Cllr Michael Gray
Vicky Thomas

Cardiff / Caerdydd

Carmarthenshire / Sir Gaerfyrddin
Meinir Wynne Loader
Gwyneth Thomas
J.S.Williams
Cllr.Dr.J.D.Evans
D.Williams

Ceredigion
Vaughan Salisbury

Conwy
Gavin Craigen

Denbighshire / Sir Ddinbych
Mairwenna Lloyd
Parch Brian Huw Jones
Gavin Craigen

Flintshire / Sir y Fflint
Gavin Craigen

Gwynedd

Merthyr Tydfil/ Merthyr Tudful
Carys Thomas

Monmouthshire / Sir Fynwy
Gill Vaisey

Neath and Port Talbot / Castell-Nedd ac Aberfan

Newport / Casnewydd
Susan Collingbourne
Vicky Thomas

Pembrokeshire / Sir Penfro

Powys

Rhondda Cynon Taf
Carys Thomas

Swansea / Abertawe
Vicky Thomas
David Williams
Janet Neilson

Torfaen
Vicky Thomas
Marilyn Frazer

Vale of Glamorgan
Gill Vaisey

Wrexham / Wrecsam
Tania ap Siôn
Vicky Barlow

Observers
Hywel Evans REMW
Revd Prof Leslie Francis WNCRE
Peter Fishpool Christian Education/RE Today
Prof. Stannard Christian Education/RE Today

EHN

Chairman / Cadeirydd: Mr.G.Craigen
Curriculum Support / Cefnogi'r Cwricwlwm
County Hall / Neuadd y Sir
Mold / Yr Wyddgrug
CH7 6ND

Secretary / Ysgrifennydd ; Mrs.S.Collingbourne
The Gables
Llanwern
Newport / Casnewydd
S.Wales / De Cymru NP18 2DS
Tel / Ffôn 01633 411919
Email / Ebost: susan.collingbourne@tinyworld.co.uk

| **Minutes of a meeting held at County Hall, Carmarthen on 14th March 2008** | **Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin, ar 14eg Mawrth 2008** |
| --- | --- |
| 1. **Quiet Reflection** The Chair opened the meeting by announcing the death of the Revd Glyndwr Walker, a member of Carmarthen SACRE and regular attendee at WASACRE. Sympathy was expressed to his family and colleagues. The Chair asked members to 'rise to the challenge' as we approach the coming of Holy Week. To rise to the challenge to stand alongside those who find the present and the future daunting and the past, haunting. To resolve to act justly, love mercy and walk humbly in our faith. | 1. **Adfyfyrio tawel** Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy gyhoeddi marwolaeth y Parch. Glyndwr Walker, aelod o GYSAG Sir Gaerfyrddin ac un a fu'n fynychwr cyson o gyfarfodydd CCYSAGC. Mynegwyd cydymdeimlad â'i deulu a'i gydweithwyr. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau 'dderbyn yr her' wrth i ni nesáu at Wythnos y Pasg: derbyn yr her o sefyll ochr yn ochr â'r rhai hynny sy'n cael y presennol a'r dyfodol yn frawychus a'r gorffennol yn hunllefus; a phenderfynu gweithredu'n gyfiawn, caru trugaredd, a cherdded yn ostyngedig yn ein ffydd. |
| 2. **Introduction and Welcome** The Chair introduced Cllr Dewi Enoch, Chair of Carmarthenshire County Council. Cllr Enoch welcomed us to Carmarthen and said that he was very aware of the important work undertaken by WASACRE and the individual SACREs. He spoke of his pride in the Carmarthen SACRE and their work in maintaining the standard of RE taught in the County and he was equally proud that Carmarthen employed an Adviser to ensure those standards were met. The Chair thanked Cllr Enoch for the hospitality extended to the meeting. | 2. **Cyflwyniad a chroeso** Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynghorydd Dewi Enoch, Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin. Fe'n croesawyd i Gaerfyrddin gan y Cynghorydd Enoch, a ddywedodd ei fod yn ymwybodol iawn o'r gwaith pwysig yr oedd CCYSAGC a'r CYSAG'au unigol yn ymgymryd ag ef. Soniodd am ei falchder o GYSAG Sir Gaerfyrddin ac o'u gwaith yn cynnal safon yr AG a oedd yn cael ei chyflwyno yn y Sir, a dywedodd ei fod yr un mor falch fod Sir Gaerfyrddin yn cyflogi Ymgynghorydd i sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu cyrraedd. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Enoch am y croeso a estynnwyd i'r cyfarfod. |
| 3. **Apologies** were received from: _ C.Abbas, M.Parry, H.Gibbon, Canon T.Roberts, | 3. Derbyniwyd **ymddiheuriadau** oddi wrth: C.Abbas, M.Parry, H.Gibbon, y Canon |

| | |
|---|---|
| N.Richter, Cllr.G.Pickering,Cllr.F.Gillmore, B.James, S.Cave, Cllr.J.Rogers, J.Malcolm, Cllr.R.Poole, A.Davison, G.Rogers, Cllr.A.Luke, Revd.E.Phillips, Cllr.M.Pead, D.Roberts, L.Sheriff, M.Campion_Apologies were also given that RE Today supplements were not available for distribution, they would be posted at a later date. | T.Roberts, N.Richter, y Cynghorydd G.Pickering, y Cynghorydd F.Gillmore, B.James, S.Cave, y Cynghorydd J.Rogers, J.Malcolm, y Cynghorydd R.Poole, A.Davison, G.Rogers, y Cynghorydd A.Luke, y Parch. E.Phillips, y Cynghorydd M.Pead, D.Roberts, L.Sheriff, ac M.Campion._Ymddiheurwyd yn ogystal am y ffaith nad oedd yr atodiadau 'RE Today' ar gael i'w dosbarthu; byddent yn cael eu postio'n ddiweddarach. |
| **4. <u>Minutes of the meeting held at Ebbw Vale on 4th December 2007</u>** the minutes were accepted as a true record of that meeting with two amendments: (point 8) – the Report from the meeting with The Minister had not been included – to be sent with the minutes from this meeting and (point 11 page 12) remove 'llanw' from AOB.<br>Proposed by Mr.R.Thomas seconded by Ms V.Barlow. | **4. <u>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nglynebwy ar 4ydd Rhagfyr 2007</u>**<br>Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir, gyda dau ddiwygiad: (Pwynt 8) — Nid oedd yr Adroddiad ar y cyfarfod gyda'r Gweinidog wedi ei gynnwys; byddai'n cael ei anfon gyda Chofnodion y cyfarfod hwn; (Pwynt 11 ar dudalen 12) — Dileu'r gair 'llanw' o UFA. Cynigiwyd gan Mr. R.Thomas, a eiliwyd gan Ms V.Barlow. |
| **5. <u>Matters arising</u>**<br>o **Croeso Project –** The Chair confirmed that a bilingual presenter will be available in the future<br>o **Faith Garden –**_Vicki Barlow reported the sudden and untimely death of Chris Pittaway, the Deputy Head who had accompanied the pupils to make the presentation to WASACRE. A letter of condolence had been sent to the school and his family. | **5. <u>Materion yn codi</u>**<br>o **Prosiect Croeso** — Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai cyflwynydd dwyieithog ar gael yn y dyfodol.<br>o **Gardd Ffydd** — Tynnodd Vicki Barlow sylw at farwolaeth ddisymwth ac annhymig Chris Pittaway, y Dirprwy Bennaeth a oedd wedi dod gyda'r disgyblion i wneud y cyflwyniad i GCYSAGC. Yr oedd llythyr o gydymdeimlad wedi ei anfon i'r ysgol ac at ei deulu. |
| **6. <u>Correspondence</u>** the following correspondence had been received since the list was circulated: Anglesey SACRE Annual Report; Bridgend SACRE Annual Report; GTCW letter asking for a further nomination; a letter and a cheque from Congregational & General Charitable Trust; an acknowledgement letter from Rank Foundation re. request for funding for the Post 16 RE Conference. | **6. <u>Gohebiaeth</u>** Yr oedd yr ohebiaeth ganlynol wedi ei derbyn ers i'r rhestr gael ei chylchredeg: Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn; Adroddiad Blynyddol CYSAG Pen-y-bont ar Ogwr; llythyr gan GyngACC yn gofyn am enwebiad pellach; llythyr a siec gan y 'Congregational & General Charitable Trust'; llythyr cydnabyddiaeth oddi wrth Sefydliad Rank ynglŷn â'r cais am noddiant ariannol ar gyfer y Gynhadledd AG Ôl-16. |
| **7. <u>Executive Report</u>**<br>o Item 2- The Chair commented on the positive letter received from Jon | **7. <u>Adroddiad y Pwyllgor Gwaith</u>**<br>o Eitem 2 — Gwnaeth y Cadeirydd sylw ar y llythyr cadarnhaol yr oedd wedi ei |

| | |
|---|---|
| Hawkins and he will write to ask for a copy of the revised information and planning sheet and timescale. | dderbyn oddi wrth Jon Hawkins; byddai'n ysgrifennu i ofyn am gopi o'r wybodaeth ddiwygiedig, y ddalen gynllunio, a'r amserlen. |
| o Ms.Gill Vaisey asked for a copy of the letter sent by The Chair to Susan Lewis re the Inspection Handbook. The letter will be sent out with the next set of papers. | o Gofynnodd Ms. Gill Vaisey am gopi o'r llythyr a anfonwyd gan y Cadeirydd at Susan Lewis ynglŷn â'r Llawlyfr Arolwg. Byddai'r llythyr yn cael ei anfon allan gyda'r set nesaf o bapurau. |
| o Mr.R.Thomas referred to point 7 of the Report and informed members that England was moving forward on RE and not Collective Worship element of 10/94. | o Cyfeiriodd Mr. R.Thomas at Bwynt 7 yn yr Adroddiad, a rhoddodd wybod i'r aelodau fod Lloegr yn symud ymlaen ynglŷn ag AG ac nid yr elfen addoli ar y cyd yng nghylchlythyr 10/94. |
| o The copy of the Constitution with the proposed amendments, sent with the papers for this meeting was incorrect. The Code of Practice is removed from the Constitution and should appear as an addendum. A revised copy will be sent to all SACRE Clerks. The amended Constitution is to be approved at the AGM in June. | o Yr oedd y copi o'r Cyfansoddiad a oedd yn cynnwys y diwygiadau bwriedig, a anfonwyd gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn, yn anghywir. Yr oedd y Cod Ymarfer wedi ei dynnu allan o'r Cyfansoddiad, a dylai ymddangos ar ffurf atodiad. Byddai copi diwygiedig yn cael ei anfon at Glercod yr holl GYSAG'au. Y bwriad oedd i'r Cyfansoddiad diwygiedig gael ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin. |
| o The questionnaire from Ann Buchanan re. Collective worship and SACREs had been discussed at Executive; there was concern about the way it had been put together. However, it is for each individual SACRE to decide whether or not to take part in the survey. | o Yr oedd yr holiadur gan Ann Buchanan ynglŷn ag Addoli ar y cyd a ChYSAG'au wedi ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith; yr oedd pryder wedi ei fynegi ynglŷn â'r modd yr oedd wedi ei lunio. Fodd bynnag, mater i bob CYSAG unigol oedd penderfynu a oedd am gymryd rhan yn yr arolwg ai peidio. |
| o UCAC – Mr.Vaughan Salisbury had been in touch with UCAC and he will be available to them to check the amended publication. | o UCAC — yr oedd Mr. Vaughan Salisbury wedi bod mewn cysylltiad ag UCAC, a byddai ar gael iddynt i wirio'r cyhoeddiad diwygiedig. |
| o Guidance Document on School Uniform – paragraph 2:10 had been followed up by the Inter faith Forum and the Equality for Human rights Forum as there was concern about the wording being contrary to Government guidance on dealing with bullying in schools. This issue had been taken up by other organisations. | o Y Ddogfen Arweiniad ynglŷn â Gwisg Ysgol — yr oedd paragraff 2:10 wedi ei ddilyn ymlaen gan y Fforwm Aml-ffydd a'r Fforwm Cydraddoldeb am Iawnderau Dynol, gan fod yna bryder bod y geiriad yn groes i gyfarwyddyd y Llywodraeth ynglŷn â thrin bwlio mewn ysgolion. Yr oedd sefydliadau eraill wedi mynd ar ôl y mater hwn. |

| | |
|---|---|
| 8. **Presentation from Christian Education – Tackling Tough Issues Project** The Chair welcomed Professor Russell Stannard and Mr.Peter Fishpool from CEO Christian Education.<br>Mr.Fishpool explained the background to the project as having been produced for use in RE in Secondary settings and it deals with difficult areas in life. Students were given opportunities to discuss and explore these important issues. An information sheet was distributed ( a copy is enclosed with these minutes) The charity, Christian Education has one 'branch' called RE Services, and also has the National Society of Teachers of RE in England as part of the charity. There are 4,000 subscriptions to the magazine made up of individuals, schools and SACREs. They are constantly on the lookout for new partners to work with in order to produce good resources. The Templeton Foundation had sponsored the Tackling Tough Questions project, which included an 85mins DVD, a teacher's book, questions for discussion and various activities. The project had been trialed in schools and refined before publication.<br><br>Professor Stannard spoke of two main reasons why people have problems with religious concepts :- a perceived conflict between religion and science and how God allows evil, suffering and death. Professor Stannard introduced himself as a scientist who is a licensed lay minister in the church of England. He emphasised that the project is not to make converts but it is to give two sides to an argument, it is Religious Education not Religious Instruction. The DVD follows the format of short exchanges between a believer and a non-believer (the listener is never told the faith origin of either person), then a quote from the presentation is used as a still picture to allow time for students to discuss the issues. Members watched some clips from the DVD and were then invited to take part in one of the group activities. Ms Gill Vaisey commented that as pupils have been more involved in thinking skills at primary school, they should | 8. **Cyflwyniad gan Addysg Gristnogol — Prosiect 'Tackling Tough Questions'** Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Athro Russell Stannard a Mr. Peter Fishpool, Prif Weithredwr Addysg Gristnogol.<br>Eglurodd Mr. Fishpool y cefndir i'r prosiect: yr oedd wedi ei gynhyrchu i'w ddefnyddio mewn AG mewn cyd-destunau uwchradd, ac yr oedd yn ymdrin â meysydd anodd mewn bywyd. Yr oedd myfyrwyr yn cael cyfleoedd i drafod ac archwilio'r materion pwysig hyn. Cafodd dalen wybodaeth ei dosbarthu (mae copi ynghlwm wrth y Cofnodion hyn). Yr oedd gan yr elusen Addysg Gristnogol un gangen dan yr enw 'RE Services', ac yr oedd Cymdeithas Genedlaethol Athrawon AG yn Lloegr yn rhan o'r elusen hefyd. Yr oedd 4,000 o danysgrifwyr i'r cylchgrawn, gan gynnwys unigolion, ysgolion a ChYSAG'au. Yr oedd yr elusen yn chwilio'n gyson am bartneriaid newydd i weithio gyda hwy er mwyn cynhyrchu adnoddau da. Yr oedd Sefydliad Templeton wedi noddi'r prosiect 'Tackling Tough Questions', a oedd yn cynnwys DVD 85 munud o hyd, llyfr i athrawon, cwestiynau i'w trafod, ac amryfal weithgareddau. Yr oedd y prosiect wedi ei dreialu mewn ysgolion ac wedi ei fireinio cyn ei gyhoeddi.<br><br>Soniodd yr Athro Stannard am ddau brif reswm pam yr oedd gan bobl broblemau gyda chysyniadau crefyddol:- gwrthdaro canfyddedig rhwng crefydd a gwyddoniaeth, a sut yr oedd Duw'n caniatáu drygioni, dioddefaint ac angau. Cyflwynodd yr Athro Stannard ei hun fel gwyddonydd a oedd yn weinidog lleyg trwyddedig yn Eglwys Loegr. Pwysleisiodd nad creu tröedigion oedd pwrpas y prosiect, ond yn hytrach cyflwyno dwy ochr dadl; Addysg Grefyddol, nid Hyfforddiant Crefyddol, oedd yma. Yr oedd y DVD yn defnyddio diwyg dadleuon byr rhwng crediniwr ac anghrediniwr (ni ddatgelid beth oedd tarddbwynt ffydd y naill unigolyn na'r llall mewn unrhyw achos); yna yr oedd dyfyniad o'r cyflwyniad yn cael ei ddefnyddio fel llun llonydd er mwyn caniatáu amser i'r myfyrwyr drafod y dadleuon. Gwyliodd yr aelodau rai detholiadau o'r |

| | |
|---|---|
| be able to respond well to these activities. The Chair thanked Mr.Fishpool and Professor Stannard for their interesting and stimulating presentation and commented that in the hands of good teachers the pack will be a very good resource. | DVD, a gwahoddwyd hwy wedyn i gymryd rhan mewn un o'r gweithgareddau grŵp. Gwnaeth Ms. Gill Vaisey'r sylw y dylai disgyblion heddiw allu ymateb yn dda i'r gweithgareddau hyn oherwydd iddynt gael mwy o brofiad o sgiliau meddwl yn yr ysgol gynradd. Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Fishpool a'r Athro Stannard am eu cyflwyniad diddorol a symbylol, a gwnaeth y sylw y byddai'r pecyn yn adnodd da iawn yn nwylo athrawon da. |
| 9. **Showcase** Mr.R.Thomas distributed leaflets about RE Resources in Welsh for Key Stages 1 – 5. Mrs.Tania ap Siôn distributed leaflets about the new world faith series for Key Stage2. | 9. **'Showcase'** Dosbarthodd Mr. R.Thomas daflenni ynglŷn ag Adnoddau AG yn Gymraeg ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 – 5. Dosbarthodd Mrs. Tania ap Siôn daflenni ynglŷn â'r gyfres ffydd fyd-eang newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 2. |
| 10. **Post 16 RE Conference** The Chair distributed a draft programme for the day (included with these minutes) The date received from The Minister is **Saturday 4th October.** The Conference is to raise awareness of what Post 16 RE could be and the benefits to the pupils and it is targeted at senior managers in the schools to encourage them to give RE an appropriate time in the curriculum. Technicians will be available to set up and maintain the video link between the two venues. There will also be instant translation available at both venues. The Chair has written to various grant making charitable trusts seeking funding towards the cost of translating 'Spiritual Engagement'. Negotiations are taking place with GTCW to second two teachers for five weeks to produce additional resources that will be distributed to all schools. Invitations to the conference will go via DCELLS early in June for each school to send two representatives. Funky Dragon had been contacted to send a group of young people to the day. Mrs.M.Lloyd suggested that young people from the host schools be invited to steward for the day. | 10. **Y Gynhadledd Ôl-16** Dosbarthodd y Cadeirydd rhaglen ddrafft ar gyfer y diwrnod (mae wedi ei chynnwys gyda'r Cofnodion hyn). Y dyddiad a dderbyniwyd oddi wrth y Gweinidog oedd **dydd Sadwrn Hydref 4ydd.** Pwrpas y Gynhadledd oedd codi ymwybyddiaeth o'r hyn y gallai AG Ôl-16 fod, ynghyd â'r buddion ar gyfer disgyblion. Yr oedd yn cael ei hanelu at uwch reolwyr mewn ysgolion, er mwyn eu cymell i neilltuo amser priodol ar gyfer AG yn y cwricwlwm. Byddai technegwyr ar gael i sefydlu a chynnal y cyswllt fideo rhwng y ddau fan cyfarfod. Byddai cyfieithu ar y pryd ar gael yn y ddau fan cyfarfod hefyd. Yr oedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at wahanol ymddiriedolaethau elusennol a oedd yn dyfarnu grantiau, i ymofyn arian tuag at gost cyfieithu 'Spiritual Engagement'. Yr oedd trafodaethau ar y gweill gyda ChyngACC er mwyn secondio dau o athrawon am bum wythnos i gynhyrchu adnoddau ychwanegol a fyddai'n cael eu dosbarthu i'r holl ysgolion. Byddai gwahoddiadau i'r Gynhadledd yn mynd allan drwy APADGOS ym mis Mehefin; byddid yn gofyn i bob ysgol anfon dau gynrychiolydd. Yr oedd cais wedi ei wneud i'r 'Ddraig Ffynci' anfon grŵp o bobl ifanc i'r diwrnod. Awgrymodd Mrs. M.Lloyd y dylid gwahodd pobl ifanc o'r ysgolion a oedd |

| | |
|---|---|
| | ifanc i'r diwrnod. Awgrymodd Mrs. M.Lloyd y dylid gwahodd pobl ifanc o'r ysgolion a oedd yn croesawu'r Gynhadledd i stiwardio am y diwrnod. |
| 11. <u>A.O.B.</u> | 11. <u>U.F.A.</u> |
| o **14 – 19 Networks** – The Chair suggested that SACREs need to make contact with these Networks in each Authority so they can become fully conversant with the requirements for RE and CW. The Chair will write a draft letter for each SACRE to send to their Network Coordinator. | o **Rhwydweithiau 14 – 19** — Awgrymodd y Cadeirydd fod angen i GYSAG'au gysylltu â'r Rhwydweithiau hyn ym mhob Awdurdod, er mwyn dod yn gwbl gyfarwydd â'r gofynion ar gyfer Addysg Grefyddol ac Addoli Cristnogol. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu llythyr drafft y gallai pob CYSAG ei anfon at ei Gydlynydd Rhwydwaith. |
| o **The Holocaust Education Trust** is holding a 'Lessons from Auschwitz' project. Each sixth form in Wales is invited to send two representatives to visit Auschwitz. There has been little take up so far, the project commences in May, but late applications will be considered. Ms.Vicki Thomas commented on the excellent pack produced each year for Holocaust Memorial Day. The pack is sent to all schools in England but does not go automatically to schools in Wales. She asked that SACREs write to WAG expressing their disappointment that WAG had not made this day high profile and to ask that packs are funded for Welsh schools in the future. | o Yr oedd yr **'Holocaust Education Trust'** yn cynnal prosiect 'Gwersi Auschwitz'. Yr oedd gwahoddiad wedi ei estyn i bob Chweched Dosbarth yng Nghymru anfon dau gynrychiolydd i ymweld ag Auschwitz. Dim ond ychydig a oedd wedi manteisio ar y cyfle hyd yma; byddai'r prosiect yn cychwyn ym mis Mai, ond byddai ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried. Gwnaeth Ms. Vicki Thomas sylw ar y pecyn rhagorol a oedd yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn ar gyfer Diwrnod Coffáu'r Holocost. Yr oedd y pecyn yn cael ei anfon i bob ysgol yn Lloegr, ond nid oedd yn mynd yn awtomatig i ysgolion yng Nghymru. Gofynnodd Ms. Thomas am i GYSAG'au ysgrifennu at Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynegi eu siom nad oedd LlCC wedi rhoi amlygrwydd uchel i'r diwrnod hwn, ac i ofyn am i becynnau gael eu hariannu ar gyfer ysgolion Cymru i'r dyfodol. |
| o **Secretary** – the Secretary has given notice of her intention to retire from her duties following the AGM meeting in June. The Chair asked for Nominations for the post a.s.a.p. so that papers etc can be handed over. He thanked Mrs.Collingbourne for her work. | o **Ysgrifennydd** — Yr oedd yr Ysgrifennydd wedi rhoi rhybudd o'i bwriad i ymddeol o'i dyletswyddau yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin. Gofynnodd y Cadeirydd am i Enwebiadau ar gyfer y swydd gael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl, er mwyn i bapurau ayyb allu cael eu trosglwyddo. Diolchodd i Mrs. Collingbourne am ei gwaith. |
| o **Nominations to Executive and for Vice Chair** – The Chair announced that four nominations had been received for Executive :- Mrs Eirian Pierce (CONWY), Mr.David Williams (SWANSEA), Cllr.Michael Gray (CAERPHILLY) and Ms.Vicki Thomas (TORFAEN) also | o **Enwebiadau i'r Pwyllgor Gwaith ac i swydd yr Is-Gadeirydd** — Cyhoeddodd y Cadeirydd fod pedwar o enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith wedi dod i law:– Mrs. Eirian Pierce (Conwy), Mr. David Williams (Abertawe), y Cynghorydd Michael Gray (Caerffili) a Ms. Vicki Thomas |

| | |
|---|---|
| (CAERPHILLY). Short bibliographies are included with these papers for voting to take place at the AGM in June. Each SACRE must inform the attending members of their vote. | Is-Gadeirydd oedd y Cynghorydd Michael Gray (Caerffili). Mae bywgraffiadau byrion wedi eu cynnwys gyda'r papurau hyn er mwyn i bleidlais gael ei chynnal yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin. Rhaid i bob CYSAG roi gwybod i'r aelodau sy'n dod i'r cyfarfod sut y mae wedi pleidleisio. |
| o **Attendance** the Chair expressed his disappointment with the attendance at this meeting with some SACRES without any representation and apologies not received. Members agreed that the Chair will write to all SACREs reminding them of the value and strength of WASACRE being represented by all 22 Authorities, and add a note to those SACREs without any representation, expressing disappointment at their lack of representation. | o **Presenoldeb** Mynegodd y Cadeirydd ei siom ynglŷn â lefel y presenoldeb yn y cyfarfod hwn. Yr oedd rhai CYSAG'au heb anfon cynrychiolwyr nac ymddiheuriadau. Cytunodd yr aelodau y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at yr holl GYSAG'au i'w hatgoffa o werth a chryfder cynrychiolaeth gan y 22 awdurdod ar GCYSAGC, ac ychwanegu nodyn at y CYSAG'au hynny nad oedd wedi anfon cynrychiolwyr, yn mynegi siom ynglŷn â'u diffyg cynrychiolaeth. |
| 12. The Chair thanked everyone for their attendance and a special thanks to Jane Rees, Clerk to Carmarthen SACRE for the excellent arrangements. He also thanked Tudur Jones for the simultaneous translation. | 12. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb, gan estyn diolch arbennig i Jane Rees, Clerc CYSAG Sir Gaerfyrddin, am y trefniadau rhagorol. Diolchodd hefyd i Tudor Jones am y cyfieithu ar y pryd. |
| 13. **Dates of next meetings**<br>o 26th June – Flintshire AGM<br>o 7th November – Monmouthshire<br>o 13th March 2009 – Bridgend<br>o Summer term – Denbighshire<br>o Autumn term Rhondda Cynon Taf | 13. **Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf**<br>o 26ain Mehefin — Sir y Fflint: Cyfarfod Blynyddol<br>o 7fed Tachwedd — Sir Fynwy<br>o 13eg Mawrth 2009 — Pen-y-bont ar Ogwr<br>o Tymor yr Haf 2009 — Sir Ddinbych<br>o Tymor yr Hydref 2009 — Rhondda Cynon Taf |

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 18 Mehefin 2008 |
|---|---|---|---|
| Eitem yr Agenda: | **6(b)** | Adroddiad: | **Cymdeithas CYSAG Cymru: enwebiadau ar gyfer y Cyfansoddiad Gweithredol/Diwygiedig** |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Mae CYSAG yn aelodau o Gymdeithas CYSAG Cymru ac maent yn anfon cynrychiolwyr i bob cyfarfod. Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas pan fydd enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith yn cael eu hethol. Bydd Cyfansoddiad Cymdeithas CYSAG Cymru yn cael ei adolygu.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

I aelodau weld pwy yw'r enwebeion a chynghori eu cynrychiolwyr wrth fwrw'u pleidleisiau ar gyfer y CYSAG.
I aelodau edrych ar y Cyfansoddiad diwygiedig.

*Argymhellion:*

I CYSAG: Awdurdodi cynrychiolwyr Cymdeithas CYSAG Cymru yn y mater o bleidleisio dros aelodau'r Pwyllgor Gwaith a chymeradwyo'r diwygiadau i'r Cyfansoddiad.

I'r AALl:

**Denbighshire County Council**
**Standing Advisory Council for Religious Education (SACRE)**

| Date of Meeting: | | | 18th June 2008 |
|---|---|---|---|
| Agenda Item: | **6(b)** | Report: | **WASACRE: nominations for the Executive/Amended Constitution** |

*Background to the Report:*

The SACRE are members of the Wales Association of SACREs and send representatives to each meeting. The next meeting of the Association is the AGM when nominations for the Executive Committee are elected. WASACRE Constitution to be revised.

*Purpose of the Report:*

For members to see who the nominees are and advice their representatives in casting the votes for the SACRE.
For members to view revised Constitution.

*Recommendations:*

To SACRE: To authorise the delegates to WASACRE in the matter of voting for members of the Executive Committee and approving amendments to the Constitution.

To the LEA:

## Code of practice for conduct of Elections / Côd Ymarfer ar gyfer cynnal Etholiadau

1. Nominations for election shall be made in writing and shall reach the Secretary before **March 1.**

1. Dylai enwebiadau fod yn ysgrifenedig a dod i law yr Ysgrifennydd cyn **Mawrth 1.**

2. The person(s) making a nomination must ensure that the person nominated is willing to serve.

2. Dylai'r sawl sy'n enwebu sicrhau bod y sawl a enwebir yn barod i wasanaethu.

3. The Secretary shall invite all persons nominated to supply a paragraph (some 100 words) about themselves - to reach the Secretary within fourteen days.

3. Bydd yr Ysgrifennydd yn gwahodd pob un a enwebwyd i gyfansoddi paragraff (oddeutu 100 o eiriau) amdano/amdani ei hunan - i gyrraedd dwylo'r Ysgrifennydd ymhen pythefnos.

4. The Secretary shall send a list of those nominated, together with the paragraphs provided, to reach every SACRE before April 1. This should allow opportunity for each SACRE to consider at its summer meeting how to cast its vote.

4. Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon enwau pawb a enwebwyd, gyda'r manylion, i gyrraedd pob CYSAG cyn Ebrill 1. Dylai hyn rhoi cyfle i bob CYSAG ystyried, yn ystod eu cyfarfod yn nhymor yr haf, sut i fwrw eu pleidlais.

**Enwebiad ar gyfer Is-Gadeirydd CCYSAGC ac**
**Aelod o Bwyllgor Gwaith CCYSAGC**
**y Cynghorydd Michael Gray CYSAG CAERFFILI**

Yr wyf yn Gadeirydd presennol, CYSAG C Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a bûm yn Gadeirydd Cyntaf CYSAG, yr Awdurdod hwnnw, pan ddaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn Awdurdod Unedol, yn Ebrill 1996.

Yr wyf hefyd wedi cynrychioli, CYSAG Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yng Nghyfarfodydd CCYSAGC, o 1996 tan yr adeg bresennol ac wedi gwasanaethu am un tymor ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGC. Yr wyf hefyd wedi gwasanaethu fel Cadeirydd, sawl Prif Bwyllgor, ar hen Gyngor Bwrdeistref Islwyn, a bûm yn Faer olaf Cyngor Bwrdeistref Islwyn, a gwasanaethais hefyd fel Is-Gadeirydd, a Chadeirydd, Pwyllgor ADSO / DLO Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ac yr wyf, ar hyn o bryd, yn Is-Gadeirydd, Pwyllgor Adfywio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Yr wyf yn aelod oes, o'r Eglwys Fethodistaidd, gan ddal Swyddi ar Leol, Dosbarth a Chyfundeb, o'r Eglwys Fethodistaidd, ac yn gyn Athro, ac Arolygwr, o Ysgol Sul eglwys, ac yn Arweinydd Clwb Ieuenctid. Swyddog Eglwys,Ymwelydd Bugeiliol, Stiward Eglwys, Organydd, a Methodist AChyn-Gadeirydd, Ysgrifennydd, a Thrysorydd presennol, Eglwysi Ynghyd Rhisga a Crosskeys (CYTUN), a Chydlynydd Cymorth Cristnogol, ar gyfer yr Eglwysi yn yr ardal honno. wyf yn Gadeirydd, Corff Llywodraethol, Ysgol Gynradd a Chyfun,yn Ysgol Gynradd Waunfawr, Crosskeys, ac yn Ysgol Gyfun Trecelyn, ac yn Llywodraethwr Cyswllt, yn y ddwy ysgol hyn dros Addysg Grefyddol

------------------------------------------

**Enwebiad i'r Pwyllgor Gwaith**
**Vicky Thomas (Ymgynghorydd dros Addysg Grefyddol yn y Gwasanaeth Gwella Addysg ac Ysgolion) CYSAG TORFAEN**

Yr wyf yn dymuno gwasanaethu ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGC oherwydd fy mod yn teimlo y gallaf barhau i wneud cyfraniad gwerthfawr ynglŷn â materion AG yng Nghymru. Fel ymgynghorydd AG i gyfanswm o 7 AALl yng Nghymru, yr wyf yn cynorthwyo AALl'au a'u CYSAG'au i sicrhau safle AG yn y cwricwlwm. Yr wyf yn frwdfrydig dros sicrhau bod addysg grefyddol yn cael y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu. Yr wyf yn credu bod CCYSAGC yn gweithredu fel corff cenedlaethol i wasanaethu buddiannau AG yng Nghymru.

- Yr wyf wedi cyflawni gwaith ymgynghorydd ers 1992, a deuthum yn Ymgynghorydd dros addysg grefyddol i AALl'au Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf ym 1998.

**Nomination for Vice Chairman of WASACRE and Member of WASACRE Executive Committee:**

**Cllr. Michael Gray CAERPHILLY SACRE**

I am the present Chairman, of the Caerphilly County Borough Council's SACRE C, and was the first Chairman of that Authority's, SACRE, when the Caerphilly County Borough Council became a Unitary Authority, in April 1996.

I have represented, Caerphilly County Borough Council SACRE, at WASACRE Meetings, from 1996 up to the present point in time and served for one term on the WASACRE Executive Committee. I have also served as Chairman, of several major committees on the former Islwyn Borough Council, and was the last Mayor of Islwyn Borough Council. I served as Vice Chairman and Chairman of Caerphilly County Borough Council's ADSO / DLO Committee. I am at present Vice Chairman of Caerphilly County Borough Council's Regeneration Committee.

I am a life long member of The Methodist Church, holding Offices at Local, District and Connexion, of the Methodist Church; being a former Teacher, & Superintendent, of a church Sunday School; Youth Club Leader; a Church Officer; Pastoral Visitor; Church Steward; Organist and Methodist APast Chairman; Secretary and present Treasurer, of Risca & Crosskeys Churches Together (CYTUN), and co-ordinator for Christian Aid for the Churches in that area. I am Chairman of the Governing Body of Waunfawr Primary School, Crosskeys and Newbridge Comprehensive School and Link Governor at both of these schools for Religious Education

---

**Nomination for Executive Committee**
**Vicky Thomas (Adviser for Religious Education at ESIS) TORFAEN SACRE**

I wish to serve on the WASACRE Executive because I feel that I can continue to make a valuable contribution regarding RE issues in Wales. As a RE adviser to a total of 7 LEAs in Wales I support LEAs and their SACREs in securing the place of RE in the curriculum. I am passionate about ensuring that religious education gets the recognition it deserves. I believe that WASACRE acts as a national body to serve the interests of RE in Wales.

- I have been involved in advisory work since 1992 and became an Adviser for religious education for the four LEAs of Bridgend, Caerphilly, Merthyr and Rhondda Cynon Taf in 1998.
- I am experienced in working with SACREs and acts as professional consultant to four SACREs namely Caerphilly, Newport, Swansea and Torfaen.
- I am currently involved in developing and writing new agreed syllabuses for RE for 8 LEAs and provide INSET for all 8 LEAs.

- Mae gennyf brofiad o weithio gyda ChYSAG'au, ac yr wyf yn gweithredu fel ymgynghorydd proffesiynol i bedwar CYSAG, sef Caerffili, Casnewydd, Abertawe a Thorfaen.
- Ar hyn o bryd yr wyf yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac ysgrifennu meysydd llafur cytûn ar gyfer AG i 8 o AALl'au ac yn darparu HMS ar gyfer y cyfan o'r 8 AALl hyn.
- Cefais wahoddiad i wasanaethu fel ymgynghorydd ac aelod o weithgor 'Asesu ac AG' APADGOS.
- Yr wyf wedi addysgu ar y lefelau cynradd ac uwchradd ac yr wyf yn hyfforddi athrawon ar y lefelau cynradd ac uwchradd.
- Yr wyf yn un o arolygwyr pwnc Estyn ar gyfer addysg grefyddol ac ar hyn o bryd yr wyf yn gweithredu fel cynrychiolydd CCYSAGC ar fforwm Estyn.
- Yr wyf yn gydawdur llyfrau ac adnoddau athrawon ar ddatblygu sgiliau meddwl yn AG ar gyfer Cyfnod Allweddol 3.

---

**Enwebiad i'r Pwyllgor Gwaith — David Williams CYSAG ABERTAWE**

- Cefais fy magu yng Ngorseinon, ger Abertawe a'm haddysgu yn Ysgol Ramadeg Tre-Gŵyr.
- Mae gennyf radd mewn efrydiau beiblaidd ym Mhrifysgol Bangor.
- Hyfforddiant Athro yn Aberystwyth fel athro AG uwchradd ym 1977
- Bûm yn addysgu AG yn Ysgol Gyfun Tre-Gŵyr ac wedyn deuthum yn Bennaeth AG yn Ysgol Gyfun Glan y Môr ym Mhorth Tywyn.
- Deuthum yn Bennaeth y Gyfadran Dyniaethau yn Ysgol Gyfun Birchgrove, Abertawe.
- Cwblheais MA mewn Addysg ym Mhrifysgol Abertawe
- Wedi bod yn aelod gweithgar fel cynrychiolydd yr NAS ar GYSAG Abertawe a bellach fel Is-Gadeirydd
- Wedi ymddeol yn gynnar o addysgu ac ar hyn o bryd yn dysgu Cymraeg
- Cwblheais gwrs NLPAN yn 2007 a bellach yn dilyn UWCAS 1 a 2 eleni
- Yn gwbl ymrwymedig i bwysigrwydd a statws AG yn ein hysgolion.

---

**Enwebiad i'r Pwyllgor Gwaith – Eirian Pierce – CYSAG CONWY**

- I was invited to serve as an adviser and member of the DCELLS 'Assessment and RE' working group.
- I have taught at both primary and secondary level and train teachers at both primary and secondary level.
- I am an Estyn subject inspector for religious education and currently serve as the WASACRE representative on the Estyn forum.
- I am co-author of Key Stage 3 books and teacher resources on the developing of thinking skills in RE.

---

**Nomination for Executive Committee – David Williams SWANSEA SACRE**

- I was brought up in Gorseinon, near Swansea and educated at Gowerton Grammar School.
- I have a biblical studies degree at Bangor University.
- Teacher's Training at Aberystwyth as a secondary RE teacher in 1977
- Taught RE in Gowerton Comprehensive School and then became Head of RE at Glan y Mor Comprehensive School in Burryport.
- Became Head of Humanities Faculty in Birchgrove Comprehensive School, Swansea.
- Completed MA in Education at Swansea University
- Been an active member as NAS representative on Swansea SACRE and now as Vice Chair
- Retired early from teaching and currently learning Welsh
- Completed NLPAN course in 2007 and now following UWCAS 1 and 2 this year
- Totally committed to the importance and status of RE in our schools.

---

**Nomination for Executive Committee**

**Eirian Pierce, (Ysgol Bryn Elian) Conwy SACRE**

Awaiting Biography

## CONSTITUTION - Y CYFANSODDIAD

(As revised 26/6/08) - (Adolygwyd 26/6/08)

*1. The name of the Association*

The name of the Association shall be the Wales Association of SACREs (hereinafter called "the Association").

*1.. Enw'r Gymdeithas*

Cymdeithas CYSAGau Cymru fydd enw'r Gymdeithas - (yma, "y Gymdeithas" fydd hi'n cael ei galw o hyn ymlaen.)

*2. The Aims of the Association*

(i) To provide a forum in Wales for SACREs to discuss concerns and as necessary make representations to other bodies;

(ii) to enable co-operation between LEAs and their SACREs and Agreed Syllabus Conferences in pursuing common interests in the development of the religious education curriculum and collective worship;

(iii) to assist SACREs in fulfilling their responsibilities by the sharing of experience and expertise;

(iv) to undertake any other activities which may benefit religious education and collective worship in Wales.

*2. Amcanion y Gymdeithas*

(i) Ymorol bod fforwm yng Nghymru ar gyfer y CYSAGau, i drafod materion o bwys iddynt, ac i ddwyn achosion i sylw cyrff eraill pan fo gofyn;

(ii) hwyluso cydweithredu rhwng Awdurdodau Addysg Lleol, eu CYSAGau a Chynadleddau Maes Llafur Cytunedig, o ran mynd ar drywydd diddordebau cyffredin ynglyn a datblygu cwricwlwm addysg grefyddol ac addoli ar y cyd;

(iii) helpu'r CYSAGau i gyflawni eu gorchwylion trwy rannu profiad ac arbenigedd;

(iv) ymroi i unrhyw weithgareddau eraill a ddichon fod o fudd i addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yng Nghymru.

*3. Membership and Duties*

(i) Each SACRE in Wales is eligible to be a member of the Association.

(ii) Each SACRE shall be invited to pass a resolution recommending its LEA to support membership of the Wales Association of SACREs.

*3. Aelodaeth a Dyletswyddau*

(i) Mae pob un o GYSAGau Cymru'n gymwys i fod yn aelod o'r Gymdeithas.

(ii) Bydd pob un o'r CYSAGau'n cael ei wahodd i basio penderfyniad yn argymell bod ei A A Ll yn cymeradwyo ymaelodi a Chymdeithas CYSAGau Cymru

EHN

(iii) The Association shall meet three times annually.

(iii) Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn.

(iv) Extraordinary meetings of the Association may be called by the Chairperson or at the request of a member SACRE. The Chairperson, in consultation with the other officers, may alter arrangements for meetings of the Association in an emergency.

(iv) Gall cyfarfodydd arbennig o'r Gymdeithas cael eu cynnal ar alwad y Cadeirydd neu ar alwad CYSAG sy'n aelod o'r Gymdeithas. Bydd modd i'r Cadeirydd, wedi ymgynghori a'r swyddogion eraill, newid y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Gymdeithas os digwydd achos brys.

(v) Each member SACRE shall be entitled to send up to four representatives, which may include professional representation, to meetings. Each SACRE will be entitled to one vote.

(v) Bydd gan bob CYSAG sy'n aelod hawl i anfon hyd at bedwar cynrychiolydd, a ddichon gynnwys cynrychiolaeth broffesiynol yn eu mysg. Bydd gan bob un o'r CYSAGau hawl i un bleidlais.

(vi) A meeting of the Association shall be deemed to be quorate when not fewer than one third of member SACREs are represented.

(vi) Bydd cyfarfod o'r Gymdeithas yn cael ei gyfrif yn un a chworwm iddo pan na fo dim llai na thraean o'r CYSAGau sy'n aelodau yn cael eu cynrychioli.

(vii) Any proposal to amend the constitution shall be communicated to SACREs at least four months prior to the AGM at which any such amendment will be considered. The AGM shall be held as part of the Association's summer meeting.

(vii) Os bydd bwriad o gwbl i newid y cyfansoddiad bydd raid rhoi gwybod i'r CYSAGau o leiaf bedwar mis cyn y CCB a fydd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw newid felly. Bydd y CCB yn cael ei gynnal yn rhan o gyfarfod haf y Gymdeithas.

(viii) The Association can if it so wishes invite bodies to have observer status in the Association. Such observers can only speak with the permission of the Chairperson.

(viii) Os bydd yn dymuno, bydd modd i'r Gymdeithas wahodd cyrff i feddu swyddogaeth sylwedydd y tu mewn i'r Gymdeithas. Dim ond os bydd y Cadeirydd yn caniatau y caiff sylwedyddion o'r fath ddweud gair.

(ix) At a meeting of the Association, any members of the SACRE, whose LEA or Council is hosting the meeting, shall be entitled to attend the meeting as observers.

(ix) Bydd hawl gan unrhyw aelodau o'r CYSAG sydd a'u AALl neu Gyngor yr un sy'n croesawu'r cyfarfod hwnnw i fod yno fel sylwedyddion

*4. Officers of the Association*

(i) These shall be elected and/or re-elected at the AGM and shall comprise: (a) the Chairperson (b) the Vice Chairperson (c) the Secretary (d) the Assistant Secretary (e) the Treasurer. The member SACRE to which the Secretary belongs shall normally be responsible for providing Secretarial support during the Secretary's term of office. No one SACRE may provide more than one officer in any one year. No one Chairperson may hold office for more than two consecutive years. When a Chairperson ceases to hold that office the Vice Chairperson shall succeed to it, subject to the requirement in para 4(ii).

(ii) If an officer is no longer a member of or associated with a SACRE, he or she shall cease to hold that office immediately. A replacement will be appointed at the next meeting and will serve until the AGM. If there is urgent need for a replacement the Executive Committee is empowered to make an appointment which will be effective until the next meeting of the Association.

(iii) There shall be an Executive Committee, which shall consist of the following:
a) the Officers, who shall be a Chairperson, a Vice-chairperson, a Secretary, an Assistant Secretary and a Treasurer.
b) six members elected from representatives of member SACREs other than those from which the Chairperson and Vice-chairperson have been nominated.
c) the immediate past Chairperson
d) the immediate past Secretary
e) a representative of NAPfRE
and f) WASACRE's representative to the RE Council of England and Wales

With the exception of the Secretary, Assistant Secretary and Treasurer, no one SACRE may provide more than one member of the Executive in any one year.

*4. Swyddogion y Gymdeithas*

(i) Bydd y rhain yn cael eu hethol a/neu eu hail-ethol yn y CCB, sef
(a) y Cadeirydd (b) yr Is-Gadeirydd
(c) yr Ysgrifennydd (ch) yr Ysgrifennydd Cynorthwyol d) y Trysorydd. Bydd y CYSAG y mae'r Ysgrifennydd yn perthyn iddo yn gyfrifol fel arfer am roi cymorth ysgrifenyddol yn ystod tymor yr Ysgrifennydd yn y swydd. Ni chaiff yr un CYSAG gyflenwi rhagor nag un swyddog yn ystod yr un flwyddyn. Ni chaiff dim un Cadeirydd gadw'r swydd am ragor na dwy flynedd yn olynol. Pan ddaw dymor y Cadeirydd yn y Gadair i ben bydd yr Is-Gadeirydd yn dod yn Gadeirydd, cyhyd ag y ganiateir hyn gan baragraff 4(ii).

(ii) Os nad yw swyddog bellach yn aelod mewn CYSAG nac yn dal dim cysylltiad chwaith bydd yn gorfod rhoi'r gorau i'w swydd ar unwaith. Bydd rhywun yn cael ei benodi yn ei le yn ystod y cyfarfod dilynol, a bydd yn gwasanaethu tan y CCB. Os oes angen llenwi'r swydd ar unwaith bydd hawl gan y Pwyllgor Gwaith i wneud penodiad dros dro - tan cyfarfod nesaf y Gymdeithas.

(iii) Fe fydd yna Bwyllgor Gwaith, a fydd yn cynnwys y canlynol:
a) y Swyddogion, sef Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd, Ysgrifennydd Cynorthwyol, a Trysorydd.
b) chwech o aelodau wedi eu hethol o blith cynrychiolwyr aelod-GYSAGau ar wahân i'r rhai yr enwebwyd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ganddynt.
c) y cyn-Gadeirydd diweddaraf
ch) y cyn-Ysgrifennydd diweddaraf
d) cynrychiolydd NAPfRE
dd) cynrychiolydd CCYSAGC ar Gyngor AG Cymru a Lloegr.

Ac eithrio'r Ysgrifennydd, yr Ysgrifennydd Cynorthwyol a'r Trysorydd, ni chaiff unrhyw un CYSAG ddarparu mwy nag un aelod o'r Pwyllgor Gwaith mewn unrhyw un flwyddyn.

Elected members of the Executive, subject to the requirements of para 4(ii) and 4(v), shall serve for a period of three years, according to a rota whereby two of their number shall complete their period of office each year.
The Chairperson shall have the right to invite to a meeting of the Executive Committee such a person or persons who in his/her opinion has a contribution to make towards the Agenda of that meeting Such an invitee shall have the right to speak and be heard, but shall not have the right to vote on any matter on which a vote is called for.

iv) The Executive Committee will only have executive powers which have been delegated to them at a meeting of the Association. The quorum shall be five and the majority vote will count.

(v) If a member of the Executive is no longer a member of or associated with a SACRE, he or she will cease to be a member of the Executive. The SACRE which he or she represented will be entitled to nominate a replacement member of the Executive, who will serve until the AGM.

(vi) In the absence of the Chairperson, the Vice Chairperson, if present, shall take the Chair. Otherwise the first business of the meeting shall be to elect a member to the Chair for that meeting. However, if the Chairperson or Vice-Chairperson arrives during the meeting, the Vice Chairperson, or the member in the Chair shall relinquish it once the item of business in hand has been completed.

Bydd aelodau etholedig o'r Pwyllgor Gwaith, yn amodol ar ofynion paragraffau 4(ii) a 4(v), yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd, yn ôl trefn drwy'r hon y bydd dau ohonynt yn cwblhau eu cyfnod yn y swydd bob blwyddyn.

Bydd gan y Cadeirydd yr hawl i wahodd i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith unrhyw berson neu bersonau sydd, yn ei farn ef/hi, â chyfraniad i'w wneud at Agenda'r cyfarfod hwnnw. Bydd gan berson gwahoddedig o'r fath yr hawl i siarad a chael gwrandawiad, ond ni chaiff yr hawl i bleidleisio ar unrhyw fater y gelwir am bleidlais arno.
iv) Dim ond pwerau gweithredol sydd wedi eu dirprwyo iddo mewn cyfarfod o'r

(iv) Dim ond pwerau gweithredolsydd wedi eu dirprwyo iddo mewn cyfarfod o'r Gymdeithas fydd gan y Pwyllgor Gwaith. Pump fydd yn gwneud cworwm a bydd pleidlais fwyafrif yn sefyll.

(v) Os nad yw aelod o'r Pwyllgor Gwaith bellach yn aelod o GYSAG nac yn dal dim cysylltiad chwaith bydd yn peidio a bod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Bydd hawl gan y CYSAG y bu'n ei gynrychioli i enwebu aelod yn ei lle/le ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a fydd yn gwasanaethu tan y CCB.

(vi) Os na fydd y Cadeirydd yn bresennol, bydd yr Is-Gadeirydd yn eistedd yn y gadair. Os na fydd yr Is-Gadeirydd yno gorchwyl gyntaf y cyfarfod fydd ethol aelod i'r Gadair ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Sut bynnag, os bydd y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd yn cyrraedd yn ystod y cyfarfod, bydd yr aelod sydd yn y Gadair yn symud gyda byth ag y bydd yr eitem o dan sylw wedi dod i ben.

5. *Subscription and Finance*

(i) The Association's financial year shall be the financial year, i e, it shall run from April 1st in any year until March 31st the following year.
(ii) There shall be an annual subscription to be determined at the AGM.

6. *Procedures*

(i)
(a) The Chairperson will move "that the minutes of the last meeting be signed as an accurate record".

(b) The only part of the minutes which can be discussed is their accuracy. Any question about their accuracy must be raised by motion and as soon as it has been dealt with the Chairperson is authorised to sign the minutes.

ii) Any member SACRE may include an item on the Agenda for meetings of the association without the requirement for it to be seconded. Any motion moved at the meeting must be seconded.

(iii) In the event of a vote being required on any proposal each member SACRE shall have one vote and a decision reached by a simple majority. The Chairperson will have a casting vote.

(iv) Meetings and correspondence shall be conducted bilingually.

(v) Any other matters, of which notice has been given, may be added by the Chairperson.

5. *Tanysgrifiad a Chyllid*

(i) Y flwyddyn ariannol fydd blwyddyn ariannol y Gymdeithas, h y, o Ebrill 1 y flwyddyn honno hyd at Fawrth 31 y flwyddyn wedyn.
(ii) Bydd tanysgrifiad blynyddol a fydd yn cael ei bennu yn y CCB.

6. *Y Trefniadau*

(i)
(a) Bydd y Cadeirydd yn dwyn cynnig gerbron "bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir".
(b) Yr unig agwedd ar y cofnodion y bydd modd ei thrafod fydd eu cywirdeb. Bydd raid i unrhyw gwestiwn ynglyn a'u cywirdeb gael ei godi trwy ddwyn cynigiad gerbron, a chyn gynted ag y bydd y mater wedi ei setlo bydd gan y Cadeirydd hawl i lofnodi'r cofnodion.

(ii) Bydd modd i unrhyw GYSAG sy'n aelod gynnwys eitem ar agenda cyfarfodydd y Gymdeithas heb fod gofyn cael eilydd. Bydd raid sicrhau eilydd ar gyfer unrhyw gynigiad sy'n cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod.

(iii) Os digwydd bod raid cael pleidleisio yn achos unrhyw gynigiad bydd gan bob un CYSAG sy'n aelod un bleidlais a phenderfyniad yn cael ei wneud trwy fwyafrif syml. Bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw.

(iv) Bydd y cyfarfodydd a'r gohebu'n cael eu cynnal yn ddwyieithog.

(v) Bydd modd i'r Cadeirydd ychwanegu unrhyw faterion eraill ar yr amod bod rhybudd wedi cael ei roi ynglyn a hwy.

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 18 Mehefin 2008 |
|---|---|---|---|
| Eitem yr Agenda: | **6(c)** | Adroddiad: | **Cymdeithas CYSAG Cymru: llythyrau a gafwyd gan y Gymdeithas** |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Mae CYSAG yn aelodau o Gymdeithas CYSAG Cymru ac maent yn anfon cynrychiolwyr i bob cyfarfod. Fel arfer rhoddir cofnodion ac adroddiadau geiriol gan y cynrychiolwyr sy'n mynychu.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Gwneud yr aelodau'n gyfarwydd â chynnwys y llythyrau a gafwyd gan y Gymdeithas o ran presenoldeb mewn cyfarfodydd ac wrth wneud cysylltiadau gyda'r Rhwydweithiau Dysgu 14-19.

*Argymhellion:*

I CYSAG:
- Cymryd camau i sicrhau bod CYSAG yn cael ei gynrychioli'n briodol yng nghyfarfodydd y Gymdeithas;.
- Cytuno i anfon y llythyr wrth Gymdeithas CYSAG Cymru ymlaen at y Rhwydwaith Dysgu 14-19, a threfnu deialog rhwng y ddau bwyllgor.

I'r AALl: Cynorthwyo'r CYSAG mewn deialog llwyddiannus rhyngddo a'r Rhwydwaith Dysgu 14 – 19

**Denbighshire County Council**
**Standing Advisory Council for Religious Education**
**(SACRE)**

| Date of Meeting: | | | 18th June 2008 |
|---|---|---|---|
| Agenda Item: | **6(c)** | Report: | **WASACRE: letters received from the Associaton** |

<u>*Background to the Report:*</u>

The SACRE are members of the Wales Association of SACREs and send representatives to each meeting. Minutes and verbal reports from representatives attending are usually given.

<u>*Purpose of the Report:*</u>

To acquaint members with the content of letters received from the Association concerning attendance at meetings and in making links with 14-19 Learning Networks.

<u>*Recommendations:*</u>

To SACRE: - To take steps to ensure that the SACRE is appropriately represented at meetings of the Association;.
- To agree to forward the letter from WASACRE to the 14 – 19 Learning Network, and arrange for dialogue between the two committees.

To the LEA: To assist the SACRE in successful dialogue between it and the 14 – 19 Learning Network

Wales Association of SACREs
Cymdeithas CYSAGau Cymru

Chairman/*Cadeirydd*: Gavin Craigen
Curriculum Support/
*Cwricwlwm Cefnogi*
County Hall/*Neuadd y Sir*
Mold/*Yr Wyddgrug*
CH7 6ND
Tel/*Ffôn: 01352 704103*
Fax/*Ffacs:* 01352 754202
e-mail/*e-bost:*
gavin.craigen@flintshire.gov.uk

At holl CYSAGau

21 Ebrill 2008

Annwyl Gydweithwyr

Mae'n debyg fod llai o bobl yng nghyfarfod diwethaf y Gymdeithas a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ar 14 Mawrth 2008 nag ers peth amser. Doedd nifer arwyddocaol o CYSAGau ac Awdurdodau Addysg Lleol ddim yn cael eu cynrychioli yno o gwbl. Roedd hynny'n siomedig iawn, yn enwedig gan fod gennym, fel rhan o'r agenda, ddarparwyr allanol oedd yn cyflwyno gwybodaeth i CYSAGau ac athrawon Cymru ar fentrau ac adnoddau newydd ar gyfer Addysg Grefyddol.

Mae pob CYSAG sy'n aelod yn gwybod yn iawn mai nerth y Gymdeithas oedd y ffaith fod pob un o'r dau ddeg dau o CYSAGau yng Nghymru yn aelodau sydd wedi talu eu haelodaeth ac felly fod y Gymdeithas yn siarad ar ran pob un ohonynt. Byddai'n drueni petai rhywun yn meddwl nad yw bellach yn gwneud hynny oherwydd bod presenoldeb mewn cyfarfodydd yn dod yn gynyddol llai cynrychiadol.

Wrth gwrs, cydnabyddir fod salwch ac weithiau digwyddiadau annisgwyl yn cadw pobl rhag bod yn bresennol, ond roedd y presenoldeb yn isel iawn yng Nghaerfyrddin ac ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau oddi wrth nifer o CYSAGau nad oedd gyda chynrychiolydd. O gofio fod dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd yn hysbys ac wedi'u cyhoeddi ymhell o flaen llaw, roedd hynny'n siom ddwbl.

Yn y cyfarfod, gofynnwyd i mi ysgrifennu at bob CYSAG i ofyn am ymdrech wirioneddol i anfon cynrychiolwyr i'r cyfarfodydd. Gan fod y cyfarfod nesaf hefyd yn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol, efallai bydd y CYSAGau'n gwneud ymdrech arbennig. Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint ar 26 Mehefin.

Gofynnwyd i mi hefyd i atgoffa CYSAGau sy'n aelodau fod ganddyn nhw hawl i anfon tri chynrychiolydd. Cafwyd trafodaethau mewn cyfarfodydd blaenorol ynghylch ceisio annog mwy o gynrychiolaeth gan athrawon / athrawesau mewn cyfarfodydd a gofyn i'r Awdurdodau Addysg Lleol dalu am athro / athrawes llanw dros athro neu athrawes sy'n mynychu cyfarfodydd fel cynrychiolydd.

Byddai o gymorth felly, petai'r llythyr hwn yn cael ei dynnu at sylw aelodau CYSAG gan obeithio y bydd presenoldeb yn y cyfarfodydd nesaf a rhai pellach CYSAG Cymru yn fwy cynrychiadol o'r ddau ddeg dau o CYSAGau ac o bwyllgorau'r CYSAGau.

Yn gywir

p.p. [signature]
Gavin P. Craigen
**Cadeirydd**

Secretary/Ysgrifennydd: Mrs S Collingbourne, The Gables, Llanwern, Newport, S.Wales NP18 2DS

Chairman/*Cadeirydd*: Gavin Craigen
Curriculum Support/
*Cwricwlwm Cefnogi*
County Hall/*Neuadd y Sir*
Mold/*Yr Wyddgrug*
CH7 6ND
Tel/*Ffôn: 01352 704103*
Fax/*Ffacs:* 01352 754202
e-mail/*e-bost:*
gavin.craigen@flintshire.gov.uk

To all SACREs

21st April 2008

Dear colleagues,

The last meeting of the Association, held in Carmarthen on 14th March 2008, was probably the least well attended for some time. There were a significant number of SACREs and LEAs that were not represented at all. This was very disappointing, especially as we had, as part of the agenda, outside providers who were informing SACREs and teachers in Wales of new initiatives and resources for Religious Education.

All member SACREs are well aware that the strength of the Association has been that all twenty two SACREs in Wales are paid up members, and that therefore the Association speaks on behalf of all of them. It would be a shame if it were to be thought less so, because attendance at meetings was becoming noticeably less well representative.

It is of course recognised that illness and sometimes unexpected events do detain people from attending, but the attendance was very low in Carmarthen, and there were no apologies from a number of SACREs where there were no representatives either. Given that the dates and venues of meetings are known and published quite well in advance, it was doubly disappointing.

At the meeting, I was asked to write to all SACREs and ask for a real effort to be made to send representatives to the meetings. As the next meeting is the Annual General Meeting as well, perhaps SACREs could make a special effort. The AGM is in County Hall, Mold, Flintshire on June 26th.

I was also asked to remind member SACREs that they are entitled to send three representatives, and that discussions had been raised in previous meetings about trying to encourage greater teacher representation at the meetings, and requesting of LEAs to pay for supply cover for teacher representatives to attend.

It would be helpful therefore, if this letter could be drawn to the attention of SACRE members, and that the attendance at the next and future meetings of WASACRE be more representative of the twenty two SACREs, and of the committees within the SACREs.

Yours sincerely,

p.p. [signature]
Gavin P. Craigen
**Chairman**

Chairman/*Cadeirydd*: Gavin Craigen
Curriculum Support/
*Cwricwlwm Cefnogi*
County Hall/*Neuadd y Sir*
Mold/*Yr Wyddgrug*
CH7 6ND
Tel/*Ffôn: 01352 704103*
Fax/*Ffacs:* 01352 754202
e-mail/*e-bost:*
gavin.craigen@flintshire.gov.uk

At bob CYSAG

21 Ebrill 2008

Annwyl Gydweithwyr,

**Addysg Grefyddol yn y Cwricwlwm 14 – 19**

Yng nghyfarfod diwethaf y Gymdeithas, fe ofynnodd yr aelodau i mi ysgrifennu atoch gyda llythyr y gallech ei yrru at eich Cyd-drefnydd Rhwydwaith 14 – 19 lleol.

O gofio'r cyfrifoldeb am y Rhwydweithiau 14 – 19 o ran cwricwlwm yr ysgol, a chyfrifoldeb statudol y CYSAG'au i fonitro darparu a chyflwyno Addysg Grefyddol yn eu hysgolion, mae'n ymddangos yn berthnasol ac yn ddymunol bod rywfaint o gyswllt a thrafodaeth yn digwydd rhwng y ddau grŵp.

Roedd yn cael ei deimlo gan aelodau y byddai o gymorth cael llythyr oddi wrth Gymdeithas CYSAG Cymru at Gyd-drefnwyr Rhwydwaith 14 – 19 yn annog dechrau ar y drafodaeth a'r berthynas hon; ac mai'r peirianwaith ar gyfer gyrru'r llythyr hwn ymlaen fyddai trwy'r CYSAG'au lleol.

I'r perwyl hwn, mae llythyr ynghlwm wrth hwn, ac rwyf yn gobeithio y byddwch yn ei ddwyn i sylw eich CYSAG ac wedyn yn ei yrru ymlaen at y Cyd-drefnydd Rhwydwaith 14 – 19 priodol. Byddai o gymorth pe gellid cael rywfaint o adborth i'r Gymdeithas, er mwyn cael gwybod beth fu'r ymateb i'r llythyr a'r cysylltiad sy'n cael ei greu.

Yr eiddoch yn gywir,

p.p. [signature]

Gavin P. Craigen
**Cadeirydd**

Wales Association of SACREs
Cymdeithas CYSAGau Cymru

Chairman/*Cadeirydd*: Gavin Craigen
Curriculum Support/
*Cwricwlwm Cefnogi*
County Hall/*Neuadd y Sir*
Mold/*Yr Wyddgrug*
CH7 6ND
Tel/*Ffôn: 01352 704103*
Fax/*Ffacs:* 01352 754202
e-mail/*e-bost:*
gavin.craigen@flintshire.gov.uk

21st April 2008

To all SACREs

Dear Colleagues,

**Religious Education in the 14 – 19 Curriculum**

At the last meeting of the Association members asked that I write to you with a letter that you may send to your local 14 – 19 Network Coordinator.

Given the responsibility for the 14 – 19 Networks in terms of the school curriculum, and the statutory responsibility of the SACREs for the monitoring of the provision and delivery of RE within their schools, it would seem pertinent and desirable for some discussion and contact between the two groups to take place.

It was felt by members that a letter from WASACRE to 14 – 19 Network Coordinators encouraging this dialogue and relationship to begin to take place would be helpful; and that the mechanism for passing on the letter would be through the local SACREs.

To that end, a letter is attached herewith, which I hope you will bring to the attention of your SACRE, and then pass on to the appropriate 14 – 19 Network Coordinator. It would be helpful if there could be some feedback to the Association as to reactions to the letter and the contact being made.

Yours sincerely,

P.P. G. Abbott

Gavin P. Craigen
**Chairman**



Secretary/Ysgrifennydd: Mrs S Collingbourne, The Gables, Llanwern, Newport, S.Wales NP18 2DS

Wales Association of SACRES
Cymdeithas CYSAGau Cymru

Chairman/*Cadeirydd*: Gavin Craigen
Curriculum Support/
*Cwricwlwm Cefnogi*
County Hall/*Neuadd y Sir*
Mold/*Yr Wyddgrug*
CH7 6ND
Tel/*Ffôn: 01352 704103*
Fax/*Ffacs:* 01352 754202
e-mail/*e-bost:*
gavin.craigen@flintshire.gov.uk

At Gydlynwyr Rhwydweithiau 14-19

Annwyl Gydweithwyr,

**Addysg Grefyddol yn y Cwricwlwm 14 – 19**

Yng nghyfarfod diweddaraf Cymdeithas y Cynghorau Sefydlog Addysg Grefyddol i Gymru (WASACRE), gofynnodd yr aelodau imi ysgrifennu atoch, trwy'r cynghorau lleol. Y Gymdeithas yw llais y 22 o gynghorau yng Nghymru, ac mae'n cwrdd bob tymor. Fel y gwyddoch, y cynghorau hyn yw'r cyrff statudol sy'n gyfrifol am y Cwricwlwm AG yn eu hardaloedd.

Mae'n debyg y gwyddoch hefyd am natur statudol Addysg Grefyddol yng nghwricwlwm yr ysgolion, a'i bod yn ofynnol i'r pwnc gael ei ddysgu yng nghwricwlwm yr ysgol, a'i bod yn ofynnol i'r pwnc gael ei ddysgu yn unol â'r Maes Llafur y cytunwyd arno ar gyfer Addysg Grefyddol hyd at a chan gynnwys 19 oed (*). Mae pob un o'r 22 o Gynghorau ac Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru wedi cytuno i ddefnyddio'r *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Cyflwyno Addysg Grefyddol i Ddysgwyr 3 i 19 Oed yng Nghymru*, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan DCELLS, **fel eu** Maes Llafur y cytunwyd arno, neu fel sylfaen eu Maes Llafur y cytunwyd arno.

O gofio'r cyfrifoldeb am y Rhwydweithiau 14 - 19 o safbwynt cwricwlwm yr ysgolion, a chyfrifoldeb statudol y cynghorau i fonitro a darparu AG yn eu hysgolion, mae'n ymddangos yn briodol ac yn ddymunol cael rhywfaint o gysylltiad rhwng y ddau grŵp. Teimlai rhai aelodau y byddai llythyr oddi wrth SACRE Cymru at y Cydlynwyr Rhwydweithiau 14 - 19 yn hyrwyddo cychwyn y dialog a'r berthynas hon o help.

Mae WASACRE wedi codi mater AG ar ôl 16 oed gyda'r Gweinidog, ac mae - mewn partneriaeth â DCELLS - yn trefnu cynhadledd genedlaethol ar 4 Hydref 2008, lle bydd y Gweinidog yn traddodi'r anerchiad allweddol. Nod y Gynhadledd yw codi proffil AG yn y cyfnod hwn, a bydd pawb sy'n mynychu'n derbyn copïau o adnoddau a baratowyd yn arbennig ar gyfer AG ar ôl 16 oed, ac ystod o ddeunyddiau defnyddiol a chyffrous eraill. Mae'r Gymdeithas wedi bod yn siarad hefyd gyda Chyngor Addysg Cyffredinol Cymru, ac mae wedi dechrau trefnu nifer o gyfnodau sabothol i athrawon wella'u sgiliau a'u datblygiad proffesiynol ac i gynhyrchu deunyddiau arloesol i ddarparu AG i rai dros 19 oed. Bydd y rhain yn rhan hefyd o'r pecyn dwyieithog a roddir i bob ysgol uwchradd (sydd â chweched dosbarth) yng Nghymru. Gwahoddir colegau Addysg Bellach i'r gynhadledd hefyd.

Hyderaf felly y byddwch yn ystyried o ddifrif drefnu i gynnal deialog a chyswllt rhyngoch chi'ch hunain a'ch SACRE lleol mewn perthynas ag AG yn y cwricwlwm 14 - 19 oed.

Yn gywir,

Gavin P. Craigen
**Cadeirydd**

Secretary/Ysgrifennydd: Mrs S Collingbourne, The Gables, Llanwern, Newport, S.Wales NP18 2DS

Chairman/*Cadeirydd*: Gavin Craigen
Curriculum Support/
*Cwricwlwm Cefnogi*
County Hall/*Neuadd y Sir*
Mold/*Yr Wyddgrug*
CH7 6ND
Tel/*Ffôn: 01352 704103*
Fax/*Ffacs:* 01352 754202
e-mail/*e-bost:*
gavin.craigen@flintshire.gov.uk

To all 14-19 Network Coordinators

Dear Colleagues,

**Religious Education in the 14 – 19 Curriculum**

At the last meeting of the Wales Association of Standing Advisory Councils for Religious Education (WASACRE), members asked that I write to you, through the local SACREs. The Association is the voice for all twenty two SACREs in Wales, and meets termly; and as you know the SACREs are the statutory bodies responsible for the RE Curriculum in their areas.

You are no doubt fully aware of the statutory nature of Religious Education in the school curriculum, and that it is a requirement for the subject to be taught according to a locally Agreed Syllabus for Religious Education right up to and including age 19 (*). All twenty two SACREs and LEAs in Wales have agreed to use *The National Exemplar Framework for Religious Education for 3 to 19-year-olds in Wales*, recently published by DCELLS, as their Agreed Syllabus, or as the basis of their Agreed Syllabus.

Given the responsibility for the 14 – 19 Networks in terms of the school curriculum, and the statutory responsibility of the SACREs for the monitoring of the provision and delivery of RE within their schools, it would seem pertinent and desirable for some discussion and contact between the two groups to take place. It was felt by members that a letter from WASACRE encouraging this dialogue and relationship to begin to take place would be helpful.

WASACRE has raised the issue of Post 16 RE with the Minister, and is - in partnership with DCELLS - arranging a national conference on 4th October 2008, where the Minister will be giving the key note speech. The Conference is designed to raise the profile of RE at this phase of education, and all delegates will be given copies of resources specially prepared for Post 16 RE, and a range of other helpful and stimulating materials. The Association has also been in discussion with the General Teaching Council for Wales, and has initiated a number of teacher sabbaticals for teachers to enhance their skills and professional development and produce innovative materials for delivering RE in Post 16 settings. These will also form part of the bilingual pack given to all secondary schools (with sixth forms) in Wales. FE Colleges are also being invited to the conference.

I trust therefore that you will seriously consider the issue of making arrangements to have dialogue and connection between yourself and your local SACRE in the matter of RE within the 14 – 19 curriculum.

Yours sincerely,

Gavin P. Craigen
**Chairman**

Secretary/Ysgrifennydd: Mrs S Collingbourne, The Gables, Llanwern, Newport, S.Wales NP18 2DS

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol**
**(CYSAG)**

| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 18 Mehefin 2008 |
|---|---|---|---|
| Eitem yr Agenda: | **6(ch)** | Adroddiad: | **Cymdeithas CYSAG Cymru: Cynhadledd Genedlaethol gydag APADGOS** |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Mae CYSAG yn aelodau o Gymdeithas CYSAG Cymru ac maent yn anfon cynrychiolwyr i bob cyfarfod. Mae'r Gymdeithas wedi cynnal cynadleddau arbennig cyson ar y cyd ag APADGOS.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Gwneud yr aelodau'n gyfarwydd â'r cynigion ar gyfer y Gynhadledd Genedlaethol ar lafar y disgwylir iddi gael ei chynnal ym mis Hydref 2008

*Argymhellion:*

I CYSAG: - Annog ysgolion i anfon cynrychiolwyr i'r gynhadledd pan gânt wahoddiad i wneud hynny gan APADGOS.

I'r AALl: - Gofyn i'r swyddogion cyswllt Uwchradd annog ysgolion i ymateb i'r gwahoddiad i anfon cynrychiolwyr i'r gynhadledd hon.

**Denbighshire County Council**
**Standing Advisory Council for Religious Education**
**(SACRE)**

| Date of Meeting: | | | 18th June 2008 |
|---|---|---|---|
| Agenda Item: | **6(ch)** | Report: | **WASACRE: National Conference with DCELLS** |

*Background to the Report:*

The SACRE are members of the Wales Association of SACREs and send representatives to each meeting. The Association has held regular special conferences in tandem with DCELLS.

*Purpose of the Report:*

To acquaint members verbally with the proposals for the National Conference due to take place in October 2008

*Recommendations:*

To SACRE: - To encourage schools to send representatives to the conference when invited to do so by DCELLS.

To the LEA: - To request Secondary link officers to encourage schools to respond to the invitation to send representatives to this conference.